

MABINOGION

(O LYFR COCH HERGEST)



J. M. EDWARDS.

This book belongs to
THE CAMPBELL COLLECTION
purchased with the aid of
The MacDonald-Stewart Foundation
and
The Canada Council

2/3



CAMPBELL
COLLECTION

This book belongs to
THE CAMPBELL COLLECTION
purchased with the aid of
The MacDonald-Stewart Foundation
and
The Canada Council

2/3




CAMPBELL
COLLECTION



Digitized by the Internet Archive
in 2011 with funding from
University of Toronto

MABINOGION.



PWYLL YN HELA YNG NGLYN CUCH.

MABINOGION.


(O Lyfr Coch Hergest.)

GOLYGWYD GAN

J. M. EDWARDS, M.A.,

YSGOL SIROL, TREFFYNNON.

**Pwyll, Pendefig Dyfed.
Branwen Ferch Llyr.
Manawyddan Fab Llyr.
Math Fab Mathonwy.**



WRECSAM :

HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR.

RHAGYMDRODD.

DYMA'R pethau hynaf fedd ein llenyddiaeth, yn ol pob tebig. Y mae'n wir mai tua'r drydedd ganrif ar ddeg y rhoddwyd hwynt mewn ysgrifen yn Llyfr Coch Hergest. Ond y maent ganrifoedd yn hŷn na hynny,—y maent yn hŷn na'r efengyl; adroddid hwy cyn i Rufeiniwr na Sais weled ein gwlad erioed. Hen ystorïau tlysiion adroddid ym Mhrydain cyn cred yw'r pedair mabinogi hyn,—ac y maent yn llawn o baganiaeth. Maent yn ddiddorol ryfeddol i blant; ac ynddynt gall y bachgen a'r eneth feddylgar astudio meddwl eu gwlad pan oedd eto heb deimlo dim oddiwrth yr Iesu.

Gwelir mewn aml le fod yr ysgrifennydd yn y drydedd ganrif ar ddeg yn ysgrifennu peth oedd yn rhy hen iddo ef ei gyflawn ddeall. Rhydd aml air o esboniad hefyd.

Hen Gymru'r tywysogion yw Cymru'r Mabinogion. Bywyd yr uchelwyr yn unig ddarlunir,—y rhai o waed brenhinol oedd yn myned ar gylch o lys i lys, a'u pobl yn rhoi bwyd a diod iddynt.

Fel ysgrifennydd Llyfr Coch Hergest, yr wyf finnau wedi newid ychydig ar y pedair mabinogi; ond ni newidiais ond lleia allwn,—dim ond digon i'w gwneud yn ddealladwy i blant ysgol ein dyddiau ni. Am yr ysgolhaig, aiff ef, wrth gwrs, i gyfrol fanwl Rhys a Gwenogfryn Evans.

Bum mewn penbleth droeon faint a newidiwn,—a newidiwn *pali* yn “sidan,” *segur* yn “ddiogel,” *madalch* yn “fwyd llyffant,” *enaint* yn “ymolchfa,” *hoff* yn “rhyfedd,” *creu* yn “cut moch,” *cyfyl* yn “terfyn,” *cyfarwyddyd* yn “ystori,” *cyfoeth* yn “frenhiniaeth,” *cymdeithas* yn “garedigrwydd,” *llawdyr* yn “llofrau.” Bum mewn penbleth hefyd beth a wnawn â geiriau y mae eu hystyr megis ar ganol newid,—*digrif*, *dwyn*, *gward*, *gwirion*, *direidi*.

Nid i'r hanesydd, sy'n ceisio penderfynu faint o allu feddai'r tywysog a faint feddai ei deulu; nid i'r gramadegydd, sy'n gweled olion tafodiaith y wlad rhwng Teifi a Thywi yn y pedair mabinogi; nid i'r hynafiaethwr, sy'n gweled ynddynt lu o fân chwedlau wedi eu clytio wrth ei gilydd yn ddigon anghelfydd,—nid i'r rhain y cyhoeddir y Mabinogion mewn dull fel yma. I blant yn ein hysgolion, i deuluoedd ar yr aelwyd hirnos gaeaf, yr adroddir hwy y tro hwn.

J. M. EDWARDS.

Yr Ysgol Sir,
Treffynnon,
Gorffennaf, 1921.

Pwyll, Pendefig Dyfed.



DYMA DDECHREU Y MABINOGI.

PWYLL, pendefig Dyfed, a oedd yn arglwydd ar saith gantref Dyfed. Ar ei dro yr oedd yn Arberth, prif lys iddo, a daeth i'w fryd ac i'w feddwl fyned i hela. Y rhan o'i dir a fynnai ei hela oedd Glyn Cuch, a chychwynnodd y nos honno o Arberth, a daeth hyd ym mhen Llwyn Diarwyd. Ac yno y bu y nos honno. A thrannoeth, yn ieuenetid y dydd, cyfodi a wnaeth, a dod i Lyn Cuch, i ollwng ei gŵn dan y coed. Canodd y corn, a dechreuodd yr hela. Cerddodd yn ol ei gŵn, a chollodd ei gymdeithion. Ac fel yr oedd yn ymwrando â llef y cŵn, efe a glywai lef cŵn eraill. Nid oeddynt unllaf â'i gŵn ef, ac yr oeddynt yn dyfod yn eu herbyn. Ac efe a welai lannerch yn y coed o faes gwastad. Ac fel yr oedd ei gŵn ef yn ymgael âg ystlys y llannerch, efe a welai garw o flaen y cŵn eraill; a thua chanol y llannerch dyma y cŵn oedd ar ei ol yn ei ddal, ac yn ei fwrw i'r llawr. Yna edrychodd ar liw y cŵn, heb feddwl edrych ar y carw. Ac ar a welsai efe o helgwn y byd, ni welsai gŵn o'r un lliw a hwynt. A'r lliw oedd arnynt oedd claerwyn disglair, a'u clustiau yn gochion. Ac fel y disgleiriai gwynder y cŵn, y disgleiriai cochder eu clustiau. Ac ar hynny at y cŵn y daeth, a gyrrodd y cŵn a laddasai y carw ymaith, a denu ei gŵn ei hun ar ol

*Fel yr aeth
dau frenin
i hela.*

y carw. Fel yr oedd yn denu ei gŵn, efe a welai farchog yn dod ar ol y cŵn ar farch erchlas mawr, a chorn canu am ei wddf, a gwisg o frethyn llwyd am dano yn wisg hela. Ar hynny daeth y marchog ato a dywedodd wrtho fel hyn,—

“Ha, unben, mi a wn pwy wyt, ac ni chyfarachaf i well i ti.”

“Ie,” ebe Pwyll, “feallai fod arnat gymaint o anrhydedd fel nas dyli.”

“Dioer,” ebe yntau, “nid teilyngdod fy anrhydedd a'm hatal i hynny.”

“Ha, unben, beth amgen?” ebe Pwyll.

“Yn wir,” ebe yntau, “dy anwybod a'th ddiffyg moes dy hun.”

“Pa ddiffyg moes, unben, a welaist arnaf fi?”

“Ni welais ddiffyg moes mwy ar ŵr erioed,” ebe yntau, “na gyrru'r cŵn a ddaliodd y carw ymaith, a denu dy gŵn dy hun arno. Hyn oedd ddiffyg moes, ac er na ddialaf arnat, yn wir, mi a wnaif o anghlod i ti werth can carw.”

“O unben, os gwnaethum gam, mi a brynnaf dy faddeuant,” ebe Pwyll.

“Pa ddelw y prynni ef?” ebe yntau.

“Wrth fel y bo dy anrhydedd. Ac ni wn i pwy wyt ti.”

“Brenin coronog wyf fi yn y wlad yr hannwyf ohoni.”

“Dydd da i ti, arglwydd,” ebe yntau, “a pha wlad yr henni ohoni?”

“O Annwn. Arawn, brenin Annwn, wyf fi.”

“Pa ffurf, arglwydd,” ebe Pwyll, “y caf fi dy faddeuant di?”

“Dyma'r wedd y ceffi hi,” ebe yntau. “Y mae gŵr sydd a'i dir gyferbyn a'm tir innau yn rhyfela yn wastad

yn fy erbyn. Sef yw hwnnw, Hafgan, brenin o Annwn. A thrwy wared gormes hwnnw oddi arnaf fi, a hynny a elli di yn hawdd, y ceffi fy maddeuant."

"Minnau a wnaif hynny yn llawen," ebe Pwyll, "a mynega dithau i mi pa ffurf y gallaf wneud hynny."

"Mynegaf," ebe yntau, "dyma fel y gelli. Mi a wnaif â thi gymdeithas gadarn. Dyma fel y gwnaif. Mi a'th roddaf di yn fy lle i yn Annwn, a rhoddaf fy ffurf a'm pryd arnat, hyd na bo gwas ystafell na swyddog nac un dyn a'm canlynodd i erioed a wypo mai nid myfi fyddi di, a hynny hyd ymhen y flwyddyn o'r dydd yfory, pryd y cyfarfyddwn yn y lle hwn."

"Ie," ebe Pwyll, "ond er i mi fod yno am flwyddyn, pa gyfarwydd a fydd i mi i ymgael â'r gŵr y sonni amdano?"

"Blwyddyn i heno," ebe ef, "y mae cyfarfod i fod rhyngddo ef a mi ar y rhyd. A bydd di yno yn fy rhith i. Un ddyrnod a roddi di iddo ef, ac ni bydd byw ohoni. Ac os gofyn efe am ail ddyrnod i ti, na ddyro er a ymbilio â thi; er a roddwn i iddo drachefn, ymladdai â mi drannoeth gystal a chynt."

"Ie," ebe Pwyll, "ond beth a wnaif â'm teyrnas fy hun?"

"Mi a wnaif," ebe Arawn, "na fydd gŵr na gwraig yn dy diriogaeth yn gwybod mai nid tydi wyf fi."

"Myfi a af i'th le di yn llawen," ebe Pwyll, "mi a af rhagof."

"Dilestair fydd dy hynt, ac ni rusia dim rhagot hyd oni ddeui i'm teyrnas i, a mi a fyddaf hebryngydd i ti."

Ac efe a'i hebryngodd oni welodd y llys a'r cyfannedd.

"Dyma y llys a'r tir," ebe ef, "i'th feddiant, dos tua'r llys, nid oes yno neb ni'th adnabo. Ac wrth fel y gwelych y gwasanaeth ynddo yr adnabyddi foes y llys."

Tua'r llys yr aeth Pwyll, ac yn y llys ef a welai hundai, a neuaddau, ac ystafelloedd, a'r adeiladau tecaf a welsai neb. Ac i'r neuadd yr aeth i

Fel yr ddad-wisgo, a daeth llanciau a gweision
ymladdodd ieuainc i'w ddadwisgo; a chyfarch gwell
dau frenin. a wnai pawb iddo fel y delent i mewn.

Dau farchog a ddaeth i dynnu ei wisg hela oddiam dano, ac i'w wisgo âg eur-wisg o bali. Y neuadd a drefnwyd, ac yna y gwelai ef y teulu a'u canlynwyr, a'r nifer harddaf a chyweiriaf a welsai neb, yn dyfod i mewn, a'r frenhines gyda hwy,—y wraig decaf a welsai neb, ac eur-wisg am dani o bali llathr. Ac ar hynny, hwy a aethant i ymolchi, ac a ddaethant at y byrddau. Ac eistedd a wnaethant fel hyn,—y frenhines un ochr i Bwyll, ac iarll, debygai ef, yr ochr arall. A dechreu ymddiddan a wnaeth ef â'r frenhines; ac er a welsai erioed wrth ymddiddan, hi oedd y wraig fwynaf, a'r foneddigeiddiaf ei haniad a'i hymddiddan.

A mwynhau a wnaethant y bwyd a'r ddiod, y canu a'r gymdeithas. Ac ar a welodd o holl lysoedd y ddaear, hwn oedd y llys llawnaf o fwyd a diod, o eur-lestri a theyrn-dlysau.

Treulio y flwyddyn a wnaeth trwy hela, a chanu, a gwledda, a charueiddrwydd, ac ymddiddan â chymdeithion,—hyd y nos yr oedd yr ornest i fod. A phan ddaeth y nos honno, yr oedd y cyfarfod yn dod i gof hyd yn oed y dyn pellaf yn yr holl wlad. Daeth Pwyll i'r man cyfarfod, a gwŷr-da ei wlad gydag ef, a chyda ei fod wrth y rhyd, marchog a gyfododd i fyny ac a ddywedodd fel hyn,—

“Ha wŷr da,” ebe ef, “ymwrandewch, rhwng y ddau frenin y mae yr ornest hon, a hynny rhwng eu dau gorff eill dau. Pob un ohonynt sydd hawliwr ar ei gilydd, a hynny am dir a daear, a diogel y dichon pob un ohonoch fod, eithr gadael rhyngddynt hwy ill dau.”

Ac ar hynny y ddau frenin a nesasant ynghyd i ganol y rhyd, ac ymgyfarfod a wnaethant. Ac ar y gosod cyntaf, y gŵr oedd yn lle Arawn a darawodd Hafgan yng nghanol ei darian hyd oni bolltodd yn ddau hanner, ac hyd oni thorrodd yr arfau, ac hyd onid oedd Hafgan hyd ei fraich a'i bicell dros bedrain ei farch ar y llawr, ac angeuol ddyrnod ynddo yntau.

“O unben,” ebe Hafgan, “pa hawl oedd i ti ar fy angau i? Nid oeddwn i yn gofyn dim i ti, ac ni wyddwn achos i ti hefyd fy lladd i. Ac, yn wir,” ebe ef, “gan i ti ddechreu fy lladd, gorffen.”

“O unben,” ebe Pwyll, “fe allai fod yn edifar gennyf am a wnaethum it. Cais a'th laddo, ni laddaf fi di.”

“Fy ngwŷr-da, cywir,” ebe Hafgan, “dygwch fi oddiyma. Daeth fy angau yn sicr. Nid oes modd i mi eich cynnal chwi bellach.”

“Fy ngwŷr-da innau,” ebe y gŵr a oedd yn lle Arawn, “cymerwch gyfarwyddyd, a gwybyddwch pwy a ddylai fod yn wŷr i mi.”

“Arglwydd,” ebe y gwŷr-da, “pawb a ddylai, canys nid oes frenin ar holl Annwn namyn tydi.”

“Ie,” ebe yntau, “a ddel yn ufudd, iawn yw ei gymryd; a'r hwn ni ddel yn *Fel yr* ufudd, gorfoder ef trwy nerth cleddyfau.” *enillwyd*

Ac ar hynny cymryd gwarogaeth y *Annwn.* gwŷr, a dechreu goresgyn y wlad a wnaeth; ac erbyn hanner dydd drannoeth yr oedd yn ei feddiant y ddwy deyrnas.

Ac ar hynny Pwyll a gerddodd tua'i gynefin, ac a ddaeth i Lyn Cuch. A phan ddaeth yno yr oedd Arawn, brenin Annwn, yn ei gyfarfod. Llawen fu pob un ohonynt wrth ei gilydd.

“Ie,” ebe Arawn, “Duw a dalo i ti am dy ffyddlondeb i mi, mi a glywais amdano.”

“Ie,” ebe Pwyll, “pan y deui i’th wlad dy hun, ti a weli a wnaethum drosot.”

“Am a wnaethost drosot,” ebe yntau, “Duw a dalo i ti.” Yna y rhoddodd Arawn ei ffurf a’i ddull ei hun i Bwyll, Pendefig Dyfed, a chymerodd yntau ei ffurf a’i ddull ei hun. Ac yna y cerddodd Arawn tua’i lys yn Annwn, a bu digrif ganddo ymweled â’i deulu a’i wŷr, canys nis gwelsai hwy er ystalm; ni wybuasent ei eisiau ef, ac ni bu newyddach ganddynt ei ddyfodiad y tro yma mwy na thro arall. Y dydd hwnnw a dreuliwyd mewn digrifwch a llawenydd. Ac eistedd ac ymddiddan a wnaeth Arawn a’i wraig a’i wŷr-da.

Yntau Pwyll, Pendefig Dyfed, a ddaeth i’w wlad a’i derfynau; a dechreuodd ymofyn â gwŷr-da y wlad beth a fuasai ei lywodraeth ef arnynt hwy y flwyddyn honno mewn cymhariaeth i’r hyn a fu cyn hynny.

“Arglwydd,” ebe hwy, “ni fu dy wybod yn fwy, ni fuost hygared gŵr, nac mor hawdd gennynt roddi rhoddion, ac ni fu well dy wladweiniaeth erioed na’r flwyddyn hon.”

“Yn wir,” ebe yntau Pwyll, “os iawn o beth i chwi ddiolch, diolchwch i’r gŵr a fu gyda chwi, a dyma yr ystori fel y bu.” A datgan yr oll a wnaeth Pwyll iddynt.

“Ie, arglwydd,” ebe hwy, “diolch i Dduw am i ti gael y cyfeillgarwch hwnnw, ac na ddwg oddi arnom ninnau y lywodraeth a gawsom y flwyddyn honno.”

“Ar a allaf, yn wir,” ebe yntau Pwyll, “nis dygaf hi.” Ac o hynny allan dechreu cadarnhau cyfeillgarwch rhyngddynt a wnaeth y ddau frenin, ac anfon pob un i’w gilydd feirch, a milgwn, a hebogau, a phob cyfryw dlws a debygai pob un a foddhai feddwl y llall. Ac o achos ei drigiant y flwyddyn honno yn Annwn, a llywodraethu ohono mor lwyddiannus, ac uno y ddwy

deyrnas yr un dydd trwy ei ddewrder a'i filwriaeth, pallodd ei enw Pwyll Pendefig Dyfed, a galwyd ef Pwyll Pen Annwn o hynny allan.

Ac unwaith yr oedd yn Arberth, prif lys iddo, lle yr oedd gwledd ddarparedig iddo, a niferoedd mawr o wŷr gydag ef. Ac wedi y bwyta cyntaf, cyfodi i gerdded a wnaeth Pwyll, a myned i ben gorsedd oedd uwchlaw y llys, a elwid Gorsedd Arberth.

“Arglwydd,” ebe un o'r llys, “hynodrwydd yr orsedd yw, pa bendefig bynnag a eisteddo arni nid â oddi arni heb un o ddau beth,—heb

*Fel y
gwelodd
Pwyll
ryfeddod.*

dderbyn briwiau ac archollion, neu weled rhyfeddod.”

“Nid oes arnaf ofn cael briwiau ac archollion ymhlith hyn o nifer, da hefyd fuasai gennyf pe gwelwn ryfeddod. Mi a af i'r orsedd i eistedd.”

Eistedd a wnaeth ar yr orsedd. Ac fel yr oeddynt yn eistedd hwy a welent wraig ar farch canwelw mawr aruchel, a gwisg euraidd ddisglair am dani, yn dyfod ar hyd y brif-ffordd arweiniai o'r orsedd. Cerdded araf, gwastad, oedd gan y march i fryd y neb a'i gwelai, ac yn dyfod i fyny tua'r orsedd.

“Ha wŷr,” ebe Pwyll, “a oes ohonoch chwi a adwaen y farchoges acw?”

“Nac oes, arglwydd,” ebe hwynt.

“Aed un,” ebe yntau, “i'w chyfarfod, i wybod pwy yw.” Un a gyfododd i fyned, a phan ddaeth i'w chyfarfod i'r ffordd, wele hi a aeth heibio. A'i hymlid a wnaeth mor gyflym ag y gallai ar draed. A pha fwyaf fyddai ei frys ef, pellaf fyddai hithau oddiwrtho ef. A phan welodd na thyciai iddo ei hymlid, dychwelyd a wnaeth at Bwyll, a dywedyd wrtho,—“Arglwydd,” ebe ef, “ni thycia i un gŵr traed yn y byd ei hymlid hi.”

“Ie,” ebe Pwyll, “dos, dos i’r llys, a chymer y march cyflymaf a weli, a dos rhagot ar ei hol.”

Y march a gymerth, a rhagddo yr aeth, a maes-dir gwastad a gafodd. Yspardynodd ei farch, a pha fwyaf y tarawai ef y march, pellaf fyddai hithau oddiwrtho ef, er mai yr un gerdded oedd ganddi ag yn y dechreu. Ei farch a ballodd. A phan welodd ef fod cerddediad ei farch yn pallu, ef a ddychwelodd hyd y lle yr oedd Pwyll.

“Arglwydd,” ebe ef, “ni thycia i mi ymlid yr unbennes acw. Ni wyddwn i am farch cyflymach yn y wlad na hwn, ac ni thyciai i mi ei hymlid hi.”

“Ie,” ebe Pwyll, “y mae yna ryw hud neilltuol, awn tua’r llys.”

I’r llys y daethant, a threuliasant y dydd hwnnw. A thrannoeth cyfodi a wnaethant, a threulio hwnnw hyd nes oedd yn amser myned i fwyta, ac wedi y bwyta cyntaf,—

“Ie,” ebe Pwyll, “ni a awn yr un nifer y buom ddoe i ben yr orsedd; a thydi,” ebe ef wrth un o’r gweision, “dwg y march cyflymaf a wyddost amdano yn y maes.”

A hynny a wnaeth y gwas. Tua’r orsedd yr aethant, a’r march ganddynt. Ac fel yr oeddynt yn eistedd, hwy a welent y wraig ar yr un march, a’r un wisg am dani, yn dyfod yr un ffordd.

“Dyma y farchoges a welsom ddoe,” ebe Pwyll. “Bydd barod, was,” ebe ef, “i wybod pwy yw hi.”

“Arglwydd,” ebe yntau, “mi a wna’f hynny’n llawen.”

Ac ar hynny daeth y farchoges gyferbyn â hwy. A hyn a wnaeth y gwas,—esgyn ar ei farch; a chyn iddo ddarfod eistedd ar ei gyfrwy yr oedd y farchoges wedi myned heibio, a chryn bellter rhyngddynt, ond brys gerdded nid oedd ganddi mwy na’r dydd cynt. Yntau a duthiodd ei farch, a thebygai er arafed

*Fel y
carlamodd
Pwyll.*

y cerddai y march y goddiwedddai hi. A hynny ni thyciai iddo. Gollwng yr awenau i'w farch a wnaeth, ond nid oedd nes ati na phan ar ei gam. Mwyaf y tarawai ef ei farch, pellaf fyddai hithau oddi wrtho, a cherdded ei march nid oedd fwy na chynt. A phan welodd na thyciai iddo ei hymlid, dychwelyd a wnaeth hyd y lle yr oedd Pwyll."

"Arglwydd," ebe ef, "nid oes allu gan y march amgen nag a welais di."

"Mi a welais," ebe yntau Pwyll, "na thycia i neb ei herlid hi. Ac yn sicr yr oedd ganddi neges at rai o'r parth hwn, pe gadawai ei brys iddi ei ddweyd. A ni a awn tua'r llys."

I'r llys y daethant, a threulio y nos honno a wnaethant drwy ganu a gwledda nes ymlonyddu. A thrannoeth mwynhau y dydd a wnaethant hyd nes oedd yn amser myned i fwyta. A phan ddarfu iddynt fwyta, Pwyll a ddywedodd,—

"Pa le mae y gwŷr y buom ni ddoe ac echdoe ar ben yr orsedd?"

"Wele ni, arglwydd," ebe hwythau.

"Awn," ebe efe, "i'r orsedd i eistedd. A thithau," ebe ef wrth was ei farch, "cyfrwya fy march yn dda, ac arwain ef i'r ffordd, a dwg fy yspardynau gyda thi."

Y gwas a wnaeth hynny. Dyfod i'r orsedd a wnaethant i eistedd, ac ni fuont yno ychwaith eneyd cyn gweled y farchoges yn dyfod yr un ffordd, yn yr un ansawdd, ac yn yr un un gerdded.

"Ha was," ebe Pwyll, "mi a welaf y farchoges yn dyfod. Moes fy march."

Ac nid cynt yr esgyn ar ei farch nag yr â hithau heibio iddo. Troi ar ei hol a wnaeth a gadael i'w farch hoyw, chwareus, gerdded, ac fe debygai y goddiwedddai hi ar yr ail gam neu'r trydydd. Ond nid oedd yn nes iddi

na chynt. Gwnaeth i'w farch redeg mor gyflym ag a allai, a gweled a wnaeth na thyciai iddo ei hymlid. Yna y dywedodd Pwyll,—

“Ha forwyn, er mwyn y gŵr mwyaf a geri, aros fi.”

“Arhosaf yn llawen,” ebe hi, “a gwell fuasai i'th farch pe gofynaset er ysmeityn.”

Sefyll, ac aros, a wnaeth y forwyn, a chodi'r rhan o wisg ei phen oedd am ei hwyneb, ac edrych arno, a dechreu ymddiddan âg ef.

“Arglwyddes,” ebe Pwyll, “o ba wlad y doi, a pha gerdded sydd arnat?”

“Cerdded ar fy negesau,” ebe hi, “a da yw gennyf dy weled di.”

“Yr wyf yn dy groesawu,” ebe ef. Ac yna meddwl a wnaeth mai difwyn ganddo oedd gwedd pob morwyn a gwraig a welsai erioed wrth ei gwedd hi.

“Arglwyddes,” ebe ef, “a ddywedi di i mi ddim o'th negesau?”

“Dywedaf, yn wir,” ebe hithau, “pennaf neges i mi oedd ceisio dy weled di.”

“Dyna,” ebe Pwyll, “y neges oreu gennyf fi dy ddyfod di iddi. A ddywedi di i mi pwy wyt?”

“Dywedaf, arglwydd,” ebe hi, “Rhianon, merch Hefeydd Hen wyf fi, a cheisir fy rhoddi i wŵr o'm hanfodd. Ac ni fynnw'n innau un gŵr oherwydd fy nghariad atat ti. Ac ni fynnaf eto os na wrthodi di fi. Ac i wybod dy ateb am hynny y daethum i.”

“Yn wir,” ebe Pwyll, “dyma fy ateb i iti. Pe cawn fy newis o holl wragedd a morynion y byd mai tydi a ddewiswn.”

“Ie,” ebe hithau, “os hynny a fynni cyn fy rhoddi i wŵr arall, noda fan cyfarfod â mi.”

“Goreu gennyf,” ebe yntau Bwyll, “po gyntaf. ac yn y lle a fynni—penoda'r man cyfarfod.”

*Fel yr
addawodd
Pwyll yn
ddifeddwl.*

“Gwnaf, arglwydd,” ebe hi. “Blwyddyn i heno yn llys Hefeydd mi a baraf fod gwledd ddarparedig yn barod erbyn dy ddyfod.”

“Yn llawen,” ebe yntau, “a minnau a fyddaf yn y man cyfarfod.”

“Arglwydd,” ebe hi, “trig yn iach, a chofia gyflawni’th addewid, ac ymaith yr af i.”

A gwahanu a wnaethant, a dychwelyd wnaeth Pwyll tua’i deulu a’i gyfeillion. A pha ofyn bynnag a fyddai ganddynt am y forwyn, i chwedlau eraill y troai yntau. Treulio y flwyddyn hyd yr amser penodedig a wnaethant, a threfnu ei farchogion, ef yn ganfed farchog, a myned rhagddo i lys Hefeydd Hen. Ac efe a ddaeth i’r llys; a llawen fuwyd wrtho, a chynnull a llawenydd ac arlwy mawr oedd yn ei aros. A holl swyddogion y llys a drefnwyd wrth ei gyngor. Trefnwyd y neuadd, ac at y byrddau y daethant. Ac fel hyn yr eisteddasant, —Hefeydd Hen ar un llaw i Bwyll, a Rhianon ar y llall, a’r gweddill pob un fel y byddai ei anrhydedd. Bwyta a gwledda ac ymddiddan a wnaethant. Ac ar ddechreu y gyfeddach, wedi’r bwyd, hwy a welent yn dyfod i mewn was gwineu mawr, brenhinol ei olwg, a gwisg o bali am dano. A phan ddaeth i gyntedd y neuadd, cyfarch gwell a wnaeth i Bwyll a’i gymdeithion.

“Gras y nef fo it, enaid,” ebe Pwyll, “a dos i eistedd.”

“Nac af,” ebe ef, “erfyniwr wyf, a’ m neges a wna.”

“Gwna yn llawen,” ebe Pwyll.

“Arglwydd,” ebe ef, “atat ti y mae fy neges, ac i’w gofyn gennyt y deuais.”

“Pa arch bynnag a erchi di i mi, hyd y gallwyf ei gael, i ti y bydd.”

“Och,” ebe Rhianon, “paham y rhoi di ateb felly?”

“ Ond oni roddodd efe yr ateb, arglwyddes, yng ngŵydd y gwŷr-da ? ” ebe'r llanc.

“ Enaid,” ebe Pwyll, “ beth yw dy arch di ? ”

“ Y wraig fwyaf a garaf yw Rhianon ; ac i'w gofyn hi a'r arlwy a'r wledd y sydd yma y daethum.” Distewi a wnaeth Pwyll, gan nad oedd ganddo ateb i'w roddi.

“ Taw hyd y mynnot,” ebe Rhianon. “ Ni fu gŵr yn fwy musgrell ar ei synwyr ei hun nag a fuost ti.”

“ Arglwyddes,” ebe ef, “ ni wyddwn i pwy oedd ef.”

“ Dyma y gŵr y mynasid fy rhoddi iddo o'm hanfodd,” ebe hi, “ Gwawl, fab Clud, gŵr o fawr allu a chyfoeth. A chan i ti ddywedyd y gair a ddywedaist, dyro fi iddo, rhag anghlod i ti.”

“ Arglwyddes,” ebe ef, “ ni wn i pa ryw ateb yw hwnnw,—ac ni allaf fi wneud a ddywedi di byth.”

“ Dyro di fi iddo,” ebe hi, “ a mi a wnaf na chaffo ef yfi byth.”

“ Pa ffurf y bydd hynny ? ” ebe Pwyll.

“ Mi a roddaf i'th law gôd fechan, a chadw honno'n dda. Ac efe a ofyn y wledd, a'r arlwy, a'r danteithion, ac nid ydynt yn dy feddiant. A myfi a roddaf y wledd i'r gwŷr a'r teulu,” ebe hi, “ a dyna fydd dy ateb am hynny. Am danaf finnau,” ebe hi, “ mi a wnaf gytundeb âg ef i'w briodi flwyddyn i heno. Ac ymhen y flwyddyn, bydd dithau a'r gôd hon gennyf gyda'th farchogion,—tydi yn ganfed,—yn y berllan uchod. A phan fo ef ar ganol y digrifwch a'r gyfeddach, tyred dithau dy hun i mewn, a dillad gwael am danat, a'r gôd hon yn dy law. Ac na ofyn ddim namyn llond y gôd o fwyd. A minnau a baraf,” ebe hi, “ pe dodid ynndi hynny o fwyd a diod sydd yn y saith gantref yma, na fydd yn llawnach na chynt. Ac wedi bwrw llawer iddi, ef a ofyn i ti,—‘ A fydd lawn dy gôd di byth ? ’ Dywed dithau,—‘ Na fydd, oni chyfyd boneddwr tra chyfoethog, a gwasgu

â'r ddeudroed y bwyd sydd yn y gôd,' a dweyd, ' Digon a roddwyd yma.' A minnau a baraf iddo fyned a sangu y bwyd yn y gôd. A phan el ef, tro dithau y gôd oni el ef dros ei ben i'r gôd, ac yna taro gwllwm ar gareiau y gôd. A bydded corn canu da am dy wddf. A phan fo ef yn rhwymedig yn y gôd, dod dithau lef ar dy gorn, a bydded hyn yn arwydd rhyngot a'th farchogion. Pan glywont hwy lef dy gorn, disgynnent hwythau at y llys."

" Arglwydd," ebe Gwawl, " gweddus fyddai i mi gael ateb am a ofynnais."

" Cymaint ag a ofynnaist," ebe Pwyll, " ar sydd yn fy meddiant i, ti a'i ceffi."

" Enaid," ebe hithau, Rhianon, " am y wledd a'r danteithion sydd yma, hyn a roddais i wŷr Dyfed, a'r teulu a'r niferoedd y sydd yma,—y rhai hyn ni adawaf fi eu rhoddi i neb. Blwyddyn i heno y bydd gwledd ddarparedig yn y llys hwn i tithau, enaid, a deuaf yn wraig i ti."

A Gwawl a gerddodd tua'i wlad. Pwyll yntau a ddaeth i Ddyfed.

A'r flwyddyn honno a dreuliodd pawb ohonynt hyd amser y wledd oedd yn llys Hefeydd Hen. Gwawl fab Clud a ddaeth tua'r wledd oedd ddarparedig iddo, daeth i'r llys, a llawen *Fel y rhodd-fuwyd wrtho.* Pwyll Pen Annwn yntau *wyd Gwawl* a ddaeth i'r berllan gyda'i farchogion,— *mewn sach,* ef yn ganfed fel y gorchymynasai Rhianon iddo, a'r gôd ganddo. Gwisgoedd bratiog trymion roddodd Pwyll am dano, a llopanau am ei draed. A phan wybu eu bod ar ddechreu y gyfeddach wedi bwyta, aeth rhagddo i'r neuadd. Ac wedi dyfod i gyntedd y neuadd, cyfarch gwell a wnaeth i Wawl fab Clud, a'i gydymdeithion o wŷr a gwragedd.

" Duw a fyddo dda wrthyt," ebe Gwawl, " a chroesaw iti."

“ Arglwydd,” ebe yntau, “ Duw a dalo iti, ar neges yr wyf atat.”

“ Y mae iti groesaw,” ebe Gwawl, “ ac os gofynni i mi rywbeth rhesymol, ti a’i cai yn llawen.”

“ Rhesymol, arglwydd,” ebe ynteu, “ ni ofynnaf ond rhag eisiau, sef yr arch a archaf,—llond y gôd fechan a weli di o fwyd.”

“ Gofyn di-draha yw hynny,” ebe Gwawl, “ ti a’i cai yn llawen. Dygwch fwyd iddo.”

Rhifedi mawr o wŷr a godasant i fyny gan ddechreu llenwi y gôd. Ac er a fwriddi, ni byddai lawnach na chynt.

“ Ha ddyn ! ” ebe Gwawl, “ a fydd lawn dy gôd di byth ! ”

“ Na fydd,” ebe Pwyll, “ er a ddoder ynnddi byth, oni chyfyd boneddwr fedd dir a daear a chyfoeth, a sangu’r bwyd yn y gôd â’i ddeudroed a dweyd,—Digon a ddodwyd yma.”

“ Cyfod,” ebe Rhianon wrth Wawl fab Clud, “ i fyny ar fyrder.”

“ Cyfodaf yn llawen,” ebe ef.

A chododd i fyny a rhoddodd ei ddeudroed yn y gôd ; a throdd Pwyll y gôd nes oedd Gwawl dros ei ben ynnddi, cauodd y gôd yn gyflym, a tharawodd gwllwm ar y careiau. Canodd ei gorn, ac ar hynny dyma y gwŷr yn dylifo i’r llys, ac yn cymryd pawb o’r nifer a ddaeth gyda Gwawl a’u doddi yn y carchar. Tafiodd Pwyll y bratiau carpiog a’r llopanau oddiam dano, a phan ddelai ei wŷr i mewn, tarawai pob un ddyrnod ar y gôd, gan ofyn,—“ Beth sydd yma ? ” “ Broch,” ebe hwythau.

Felly chware â’r gôd a wnaethant, ac fel hyn y chwareuent,—tarawai pob un y gôd naill ai â’i droed, ynte â’i ffon. Ac fel y deuai pob un i fewn, gofynnai,—“ Pa chware yw hwn ? ”

“Chware Broch yng nghôd,” ebe hwythau.

Dyma pryd y chwareuwyd “Broch yng nghôd” gyntaf.

“Arglwydd,” ebe'r gŵr o'r gôd, “pe gwrandewit fyfi, nid wyf yn haeddu fy nghuro mewn côd.”

“Gwir a ddywed,” ebe Hefeydd Hen, “iawn yw it ei wrando, ni haedda hyn.”

“Ie,” ebe Pwyll, “mi a wnaif dy gyngor amdano ef.”

“Dyma fy nghyngor,” ebe Rhianon. “Yr wyt yn y lle y perthyn arnat lonyddu y rhai sydd yn gofyn dy ffafir a'r cerddorion. Gad iddo ef rododi i bawb drosot,” ebe hi, “a chymer ymrwymiad ganddo na bo ymofyn na dial byth amdano. Digion yw hynny o gosb arno.”

“Efe a gaiff hynny yn llawen,” ebe'r gŵr o'r gôd.

“Minnau a'i cymeraf yn llawen,” ebe Pwyll, “os dyna gyngor Hefeydd a Rhianon.”

“Hynny yw ein cyngor ni,” ebe hwynt.

“Cymeraf ef,” ebe Pwyll, “cais feichiau drosot.”

“Ni a fyddwn drosto,” ebe Hefeydd, “hyd oni fydd ei wŷr yn rhydd i fyned drosto.”

Ar hynny, gollyngwyd ef o'r gôd a rhyddhawyd ei oreu-wŷr.

“Gofyn weithion i Wawl am feichiau,” ebe Hefeydd, “ni a adwaenom y neb y dylid eu cymryd ganddo.”

Enwodd Hefeydd y meichiafon. “Llunia dy amod dy hun,” ebe Gwawl.

“Digion yw gennyf fi fel y lluniodd Rhianon,” ebe Pwyll.

“Ie, arglwydd,” ebe Gwawl, “briwedig wyf fi, a doluriau mawr a gefais, ac y mae yn rhaid i mi wrth enaint, ac ymaith yr af os caniatei. A mi a adawaf wŷr-da yn y lle yma i ateb pawb ar a'th ofynno.”

“Yn llawen,” ebe Pwyll, “a gwna dithau hynny.”

Aeth Gwawl tua ei wlad, a threfnwyd y neuadd i Bwyll a'i wŷr a gwŷr y llys hefyd. Ac eistedd wrth y byrddau a wnaethant; ac fel yr eisteddasant flwyddyn i'r nos honno, yr eisteddodd pawb yn awr. Bwyta ac yfed a wnaethant, a phriodwyd Pwyll â Rhianon.

A thrannoeth, yn ieuenctid y dydd, "Arglwydd," ebe Rhianon, "cyfod i fyny, a dechreu dawelu'r cerdd-orion, ac na omedd neb heddyw ar a fynno dda."

"Hynny a wnaif fi yn llawen," ebe Pwyll, "heddyw a beunydd tra y parhau y wledd hon."

Cyfododd Pwyll i fyny, a rhoddodd osteg i wahodd yr holl rai ddymument ffafir a'r cerddorion i ymddangos, ac i fynegi iddynt y boddlonid pob un ohonynt wrth ei fodd a'i fympwy. Hynny a wnaethpwyd, a'r wledd honno a dreuliwyd, ac ni omeddwyd i neb ddim tra y parhaodd. A phan ddarfu y wledd, dywedodd Pwyll wrth Hefeydd,—

"Arglwydd, mi a gychwynaf yfory tua Dyfed, gyda dy gennad."

"Ie," ebe Hefeydd, "rhwydd hynt i ti, a dywed yr amser a'r adeg y del Rhianon ar dy ol."

"Yn wir," ebe Pwyll, "ynghyd y cerddwn oddiyma."

"Ai felly y mynni di, arglwydd?" ebe Hefeydd.

"Ie, yn wir," ebe Pwyll.

Cerddasant drannoeth tua Dyfed, a daethant i lys Arberth, a gwledd ddarparedig oedd yno iddynt. Daeth llawer o wŷr a gwragedd goreu y wlad a'r etifeddiaeth i edrych amdanynt, ac ni adawodd Rhianon neb ohonynt heb roddi iddo rodd enwog,—naill ai o freichled, ai o fodrwy, ai o faen gwerthfawr.

Llywodraethu y wlad yn llwyddiannus a wnaethant y flwyddyn honno, a'r ail. Ac yn y drydedd flwyddyn, dechreuodd gwŷr y wlad fod yn drwm eu bryd o weled

gŵr a garent gymaint a'u harglwydd, a'u brawdmaeth, yn ddi-etifedd. A dyfynnu y wlad atynt a wnaethant. A'r lle y daethant iddo oedd Preseleu, yn Nyfed.

"Arglwydd," ebe hwy, "ein hofn ni yw na bydd i ti etifedd o'r wraig sydd gyda thi. Ac wrth hynny cymer wraig arall, y bo etifedd i ti ohoni. Nid byth," ebe hwy, "y parhei di; a phe caret ti fod felly, nis dioddefwn ni gennyt."

"Ie," ebe Pwyll, "nid hir eto yr ydym ynghyd; a llawer damwain a ddichon fod. Oedwch hyn â mi hyd ymhen y flwyddyn. A blwyddyn i'r amser hwn, down ynghyd; ac wrth eich cyngor y byddaf."

Pennwyd felly. Cyn pen y cwbl o'r flwyddyn, mab a aned iddo. Ac yn Arberth y ganed. A'r nos y ganed ef dygwyd gwragedd i wylied y mab a'i fam. A beth wnaeth y gwragedd ond cysgu, a mam y mab, Rhianon. Ac yr oedd chwech o wragedd yn yr ystafell. Gwylio a wnaethant yn wir dalm o'r nos, ond cyn hanner nos cysgu a wnaeth pob un *Fel y coll-* ohonynt, a thua'r plygain deffro. A phan *wyd baban* ddeffroasant, edrychasant ar y lle y *yn y nos.* dodasant y mab,—ac nid oedd dim ohono yno.

"Och!" ebe un o'r gwragedd, "fe golles y mab."

"Ie," ebe un arall, "a dial bychan fuasai ein llosgi ni, neu ein dienyddio, am golli y mab."

"A oes," ebe un o'r gwragedd, "gyngor yn y byd inni?"

"Oes," ebe un arall, "mi a wn gyngor da."

"Beth yw hynny?" ebe hwy.

"Y mae yma ast," ebe hi, "a chenawon ganddi. Lladdwn rai o'r cenawon ac irwn wyneb Rhianon â'r gwaed, a'i dwylaw; a bwriwn yr esgyrn ger ei bron. A

thaerwn arni ei hun ddifetha y mab. Ac oni fydd ein llw ni ein chwech yn gadarnach na'i gair hi ei hun ? ”

Ac ar y cyngor hwnnw y trigiasant. Tua'r dydd deffrodd Rhianon, a dywedodd,—

“ Wragedd,” ebe hi, “ lle mae'r mab ? ”

“ Arglwyddes,” ebe hwy, “ na ofyn i ni am y mab. Nid oes o honom ni ond cleisiau ac ôl dyrnodiau wedi ymdaro â thi. Ni welsom ni erioed wraig yn meddu'r fath nerth a thydi. Ni thyciodd i ni ymryson yn dy erbyn. Fe ddinistriaist dy fab dy hun. Na hawlia ef gennym ni.”

“ Ha druain,” ebe Rhianon, “ yr Arglwydd Dduw a wŷr bob peth, na roddwch anwiredd arnaf. Y Duw a wŷr bob peth a wŷr fod hynny'n anwiredd. Ac os ofn sydd arnoch, yn wir, mi a'ch amddiffynnaf.”

“ Yn sicr,” ebe hwythau, “ ni adawn ni ddrwg ddod arnom ein hunain er dyn yn y byd.”

“ O druain,” ebe hithau, “ ni chewch un drwg er dywedyd y gwirionedd.”

Ond er a ddywedai hi, yn deg ac yn druan, ni chai ond yr un ateb gan y gwragedd.

Ar hynny, cododd Pwyll Pen Annwn a'i deulu a'i luoedd. A chelu y ddamwain honno ni allwyd. I'r wlad yr aeth y chwedl, a phawb o'r gwŷr-da a'i clybu. A daethant i gyd at Bwyll i erchi iddo ysgar a'i wraig, am gyflafan mor anwedus ag a wnaethai. Atebodd Pwyll nad oedd ganddynt hwy achos i wneud iddo ysgar a'i wraig, namyn am na byddai ganddi blant.

“ Plant, mi a wn sydd ganddi,” ebe Pwyll, “ ac nid ysgaraf â hi. Os gwnaeth gam, cymered ei phennyd amdano.”

Galwodd Rhianon ati athrawon a doethion, a chan fod yn well ganddi gymryd ei phennyd nac ymdaeru â'r gwragedd, ei phennyd a gymerodd. A'r pennyd ddodwyd

arni oedd, bod yn y llys hwnnw yn Arberth hyd ymhen y saith mlynedd. Wrth y porth yr oedd esgynfaen; ac yr oedd yn rhaid iddi eistedd gerllaw hwnnw beunydd, a dweyd yr holl hanes wrth bawb ar a ddelai, os tebygai na wyddent yr hanes o'r blaen, a chynnig dwyn pob ymwelwr ac estron ar ei chefn i'r llys. A damwain y gadawai neb iddi ei ddwyn. Ac felly treulio talm o'r flwyddyn a wnaeth.

Ac yn yr amser hwnnw yr oedd Teyrnion Twrf Fliant yn arglwydd ar Went Iscoed. A'r gŵr goreu yn y byd oedd. Ac yn y tŷ yr oedd caseg, ac nid oedd yn ei deyrnas farch na chaseg deach na hi. A phob nos Calanmai deuai ag ebol bach, ac ni wyddai neb beth a ddeuai o'r ebol. Ac un noswaith ymddiddanodd Teyrnion â'i wraig.

“Ha wraig, llibin ydym yn cadw epil ein caseg heb gaffael yr un ohonynt.”

“Beth a ellir wrth hynny?” ebe hi.

“Yn wir,” ebe ef, “nos Galanmai yw *Fel y caf-heno*, a mynnaf wybod beth sydd yn dwyn *wyd baban*. yr ebolion.”

Parodd ddodi'r gaseg mewn tŷ. Gwisgodd yntau arfau am dano, a dechreuodd wyllo'r nos. Ac ar y cyfnos daeth y gaseg ag ebol mawr a hardd, yr hwn a safodd ar ei draed yn y fan. Cododd Teyrnion i edrych ar faint yr ebol. Ac fel yr oedd yn edrych felly, fe glywai dwrf mawr. Ac ar ol y twrf, dyma grafanc yn dod trwy ffenestr ar y tŷ, ac yn ymafael â'r ebol ger ei fwng. Tynnodd Teyrnion ei gleddyf, a tharawodd y fraich wrth y penelin ymaith, fel yr oedd darn o'r fraich a'r ebol ganddo i mewn. Ar hynny, clywai dwrf a therfysg. Agor y drws a wnaeth a rhuthro ar ol y twrf. Ni welai beth oedd yn gwneud y twrf gan dywyllid y nos. Rhuthrodd ar ei ol, gan ymlid. A daeth i'w gof iddo

adael y drws yn agored. Dychwel a wnaeth. Ac wrth y drws wele fab bychan yn ei grud, wedi troi llen o bali am dano. Cymerodd y mab bychan ato, ac yr oedd yn fachgen cryf o'r oed oedd arno. Dododd gaead ar y drws, ac aeth i'r ystafell lle yr oedd ei wraig.

"Arglwyddes," ebe ef, "ai cysgu yr wyt ti?"

"Nage, Arglwydd," ebe hi, "mi a gysgais, a phan ddaethost ti i mewn, mi a ddeffroais."

"Y mae yma fab i ti," ebe ef, "os mynni un na fu erioed i ti."

"Arglwydd," ebe hi, "dywed fel y bu." Mynegodd Teyrnion yr holl hanes wrthi.

"Pa fath wisg sydd am y mab?" ebe hi.

"Llen o bali," ebe yntau.

"Mab i ddynion mwyn yw felly," ebe hithau.

Bedyddiwyd y mab yn ol yr arferiad yno, a'r enw roddwyd arno oedd Gwri Wallt Euryn; gan fod hynny o wallt oedd ar ei ben cyn felyned a'r aur. Meithrin y mab yn y llys a wnawd nes oedd yn flwydd; a chyn ei flwydd yr oedd yn cerdded yn gryf, a mwy oedd na baban teirblwydd fyddai mawr ei dwf a'i faint. Yr ail flwyddyn yr oedd gymaint a mab chwe blwydd, a chyn pen y bedwaredd, ceisiai ennill y gweision er mwyn iddo gael tywys y meirch i'r dwfr.

"Arglwydd," ebe ei wraig wrth Deyrnion, "lle mae yr ebol achubaist y nos y cefaist y mab?"

"Mi a'i rhoddais i weision y meirch, ac erchais iddynt ofalu amdano."

"Onid da i ti, arglwydd," ebe hi, "ei dorri i lawr a'i rod-di i'r mab, canys y nos y cefaist y mab y ganed yr ebol, ac yr achubaist ef?"

"Nid wyf yn erbyn hynny," ebe Teyrnion, "mi a adawaf i ti ei rod-di iddo."

"Da, arglwydd," ebe hi, "mi a'i rhoddaf."

Yna y rhodded y march i'r mab, a daeth hi at weision yr ystabl, a gweision y meirch, i orchymyn iddynt ofalu am y march, a'i fod yn hywedd erbyn y delai y mab i'w farchogaeth.

Yng nghanol yr helyntion hyn, clywsant newyddion rhyfedd am Rianon a'i phennyd. Oherwydd yr hyn oedd Teyrnion wedi ei ddarganfod, ymwrandawodd â'r hanes, ac ymofynnodd yn barhaus, nes iddo glywed, gan amllder y lliaws ddelai i'r liys, fynychu cwyno druaned oedd damwain Rhianon a'i chosb.

Meddyliodd Teyrnion lawer am hyn, gan edrych ar y mab yn graff, a chredai oddiwrth ei wynepryd na welsai erioed fab a thad cyn debyced i'w gilydd a'r mab hwn a Phwyll Pen Annwn. Yr oedd yn adnabod Pwyll yn dda, canys bu cyn hynny yn un o'i wŷr. Ac wedi hynny, gofidio a wnaeth am gadw'r mab, ac yntau yn gwybod mai mab gŵr arall oedd. A phan gafodd hamdden gyntaf gyda'i wraig, mynegodd iddi nad iawn iddynt hwy oedd cadw y mab a gadael cymaint poen ar wraig mor dda a Rhianon, o achos hynny, a'r mab yn fab i Bwyll Pen Annwn.

A gwraig Teyrnion a gytunodd anfon y mab i Bwyll.

“A thri pheth, arglwydd,” ebe hi, “a gawn ni am hynny,—diolch ac elusen am ollwng Rhianon o'r boen y mae ynndi,—diolch gan Bwyll am feithrin ac adfer ei fab, a'r trydydd peth,—os mai gŵr mwyn fydd y mab, mab maeth i ni fydd, a'r goreu a allo fyth a wna i ni.” A phenderfynasant felly.

Drannoeth trefnodd Teyrnion ei farchogion,—ef yn drydydd, a'r mab yn bedwerydd farchog, ar y march a roddasid iddo gan Deyrnion, ac aethant tuag Arberth, ac ni buont yn hir yn cyrraedd yno. A phan ddaethant i ymyl y llys, hwy a welent Rianon yn eistedd yn ymyl yr esgyn-faen. A phan oeddynt gyferbyn â hi, dywedodd,—

“Ha, unben, nac ewch ymhellach, mi a ddygaf bob un ohonoch hyd y llys. A hynny yw fy mhennyd am ladd fy mab fy hun a'i ddifetha.”

“Ha, wraig dda,” ebe Teyrnion, “ni thebygaf y cymer un ohonom i ti ei ddwyn.”

“Cymered a fynno,” ebe y mab, “ni chymeraf fi.” “Yn wir, enaid,” ebe Teyrnion, “ni chymerwn ninnau.” Aethant i'r llys, a derbyniwyd hwy gyda llawenydd mawr. Ac yn dechreu cynnal gwledd yr oeddynt yn y llys. Yr oedd Pwyll newydd ddod adref o gylchu Dyfed. I'r neuadd yr aethant i ymolchi, a llawen fu Pwyll wrth Deyrnion. Eisteddai Teyrnion rhwng Pwyll a Rhianon, a'r ddau gydymaith uwch law Pwyll, a'r mab rhyngddynt. Wedi darfod bwyta, a dechreu y gyfeddach, dechreusant ymddiddan. A'r ymddiddan fu gan Deyrnion oedd, mynegi yr holl hanes am y gaseg ac am y mab, fel y bu y mab ar eu harddelw hwy,—Teyrnion a'i wraig,—ac fel y magasent ef.

“Ac a weli di yna dy fab, arglwyddes?” ebe Teyrnion, “a phwy bynnag ddywedodd anwiredd arnat, cam a wnaeth; a minnau, pan glywais y gofid a fu arnat, trwm fu gennyf, a gofidio a wnaethum. Ac nid wyf yn tebygu fod yma neb o'r nifer hwn oll nad adnabo fod y mab yn fab i Bwyll.”

“Nid oes neb,” ebe pawb, “nad yw ddiau ganddo hynny.”

“Yn wir,” ebe Rhianon, “amser esgor fy mhryder i a ddaeth, os gwir hynny.”

“Arglwyddes,” ebe Pendaran Dyfed, “da y gelwaist di dy fab Pryderi, a goreu y gwedda iddo,—Pryderi fab Pwyll Pen Annwn.”

“Edrychwch,” ebe Rhianon, “nad gwell y gwedda ei enw ei hun iddo.”

“Beth yw ei enw?” ebe Pendaran Dyfed.

“Gwri Wallt Euryn y galwasom ni ef.”

“Pryderi,” ebe Pendaran, “fydd ei enw ef.”

“Iawnaf yw hynny,” ebe Pwyll, “cymryd enw y bachgen oddiwrth y gair ddywedodd ei fam pan gafodd lawen chwedl am dano.” Ac felly y galwyd ef Pryderi.

“Teyrnion,” ebe Pwyll, “Duw a dalo i ti am feithrin y mab hyd yr awr hon. Ac iawn yw iddo yntau, os bydd ŵr mwyn. dalu i ti.”

“Arglwydd,” ebe Teyrnion, “nid oes neb yn y byd yn fwy ei galar ar ei ol na'r wraig a'i magodd ef. Ac iawn yw iddo gofio yr hyn a wnaeth fy ngwraig a finnau iddo.”

“Yn wir,” ebe Pwyll, “tra y byddaf byw ac y gailwyf gynnal fy eiddo fy hun, mi a'th gynhaliat di a'th gyfoeth. Pan ddaw ef i'm lle, iawnach fydd iddo ef dy gynnal nac i mi. Ac os boddlon gennyt ti a'r gwŷr-da, rhodddwn ef ar faeth i Bendaran Dyfed o hyn allan, fel y megaist di ef hyd yn awr. A byddwch chwithau gyfeillion a thadmaethau iddo.”

“Cyngor iawn,” ebe pawb, “yw hynny.”

Yna rhodded y mab i Bendaran Dyfed, ac aeth gwŷr-da y wlad gydag ef.

Cychwynnodd Teyrnion Twrf Fliant a'i gymdeithion tua'i wlad mewn cariad a llawenydd; ac nid oedd neb heb gynnig iddo y tlysau tecaf, a'r meirch goreu, a'r eŵn hoffaf, ond ni fynnai ef ddim.


Magwyd Pryderi fab Pwyll Pen Annwn yn ymgeleddus, fel y dylasid, hyd nes y daeth y gŵr ieuanc harddaf a thecaf, a'r goreu ymhob camp dda oedd yn y deyrnas.

Felly y treuliasant flwyddyn, a blynyddoedd, nes y daeth terfyn ar hoedl Pwyll Pen Annwn ac y bu farw.

A theyrnasodd Pryderi ar saith gantref Dyfed yn llwyddiannus, a hoff oedd gan ei ddeiliaid a phawb o'i

amgylch. Ar ol hyn unodd dri chantref Ystrad Tywi â phedwar cantref Ceredigion, a gelwir y rhai hynny saith gantref Seisyllwch. Ac yn cynyddu ei deyrnas felly y bu Pryderi fab Pwyll Pen Annwn hyd nes y daeth i'w fryd briodi. A'r wraig a fynnodd oedd Ciefu ferch Wyn Gohoew fab Gloew Wallt Lydan, fab Casnar Wledig, un o bendefigion yr ynys hon.

Ac felly y terfyna y gainc hon o'r Mabinogion.



LLONGAU MATHOLWCH.

Branwen Ferch Llyr.

DYMA YR AIL GAINC O'R MABINOGL.

BENDIGAID Fran, fab Llyr, oedd frenin coronog ar yr ynys hon, a gwisgai goron ardderchog Llundain. Brynhawn-gwaith yr oedd yn Harlech yn Ardudwy, mewn llys iddo ; ac yn eistedd yr oeddynt ar garreg Harlech uwchben y weilgi. A Manawyddan fab Llyr, ei frawd, oedd gydag ef, a dau frodyr o'r un fam ag ef,—Nisien ac Efnisien,—a gwŷr-da eraill, fel y gweddai o gylch brenin. Yr oedd y ddau frawd yn feibion i Euroswydd, ond yr oeddynt o'r un fam ag yntau, sef Penardim ferch Beli fab Mynogan. A'r naill o'r gwŷr ieuainc hynny oedd dda,—
ef a barai dangnefedd rhwng ei deulu pan *Fel y daeth*
y byddent lidiocaf, a Nisien oedd hwnnw. *brenin dros*
Y llall a barai ymladd rhwng y ddau *y môr.*
frawd pan yr ymgarent. Ac fel yr
oeddynt yn eistedd felly, hwy a welent dair llong ar ddeg yn dyfod o ddehau'r Iwerddon, ac yn cyrchu tuag atynt, a nosio'n dawel a chyflym yr oeddynt,—y gwynt o'u hol yn eu neshau'n ebrwydd tuag atynt.

“Mi a welaf longau draw,” ebe'r brenin, “yn dyfod yn ebrwydd tua'r tir. Erchwch i wŷr y llys wisgo am danynt, a myned i edrych pa feddwl yw yr eiddynt.”

Y gwŷr a wisgasant amdanynt, ac a nesasant i waered atynt. Wedi gweled y llongau o agos, diau oedd ganddynt na welsent longau cyweiriach eu dull na hwy.

Baneri têt gweddus o bali oedd arnynt. Ac ar hynny dacw un o'r llongau yn rhagflaenu y rhai eraill, a gwelent godi tarian yn uwch na bwrdd y llong,—a swch y darian i fyny yn arwydd tangnefedd. A neshaoedd y gwŷr atynt fel yr ymglywent ymddiddan. Bwrw badau allan a wnaethant hwythau, a neshau tua'r tir, a chyfarch gwell i'r brenin. Y brenin a'i clywai hwythau o'r lle yr oedd ar garreg uchel uwch eu pen.

“Duw a roddo dda i chwi,” ebe ef, “a chroesaw i chwi. Pwy biau y nifer llongau hyn, a phwy sydd bennaf arnynt hwy?”

“Arglwydd,” ebe hwy, “Matholwch, brenin Iwerddon sydd yma, ac ef biau y llongau.”

“Beth,” ebe'r brenin, “a fynnai ef? A fyn ef ddyfod i'r tir?”

“Na fyn, arglwydd,” ebe hwy, “cennad yw atat hyd oni cheiff ei neges.”

“Pa ryw neges yw yr eiddo ef?” ebe'r brenin.

“Mynnu ymglyfathrachu â thydi, arglwydd,” meddent, “i ofyn Branwen ferch Llyr y daeth ef. Ac os da gennyt ti, ef a fyn uno Ynys y Cedryn a'r Iwerddon i gyd, fel y byddont gadarnach.”

*Fel y ceis-
iodd brenin
Iwerddon.*

“Ie,” ebe yntau, “deued i'r tir, a chyngor a gymerwn ninnau am hynny.”

A'r ateb hwnnw a aeth ato ef.

“Minnau a af yn llawen,” ebe ef.

Daeth i'r tir, a llawen fuwyd wrtho. A chydgyfarfod mawr fu yn y llys y nos honno rhwng ei wŷr ef a gwŷr y llys. Drannoeth cymerwyd cyngor yn y lle, ac yn y cyngor hwnnw penderfynwyd rhoddi Branwen i Fatholwch; a hi oedd drydedd prif riain yr ynys hon,—tecaf morwyn yn y byd oedd hi. A phenderfynwyd priodi yn Aberffraw, ac i'r lluoedd hynny gychwyn oddiyno a chyrcu tuag Aberffraw,—Matholwch a'i

luoedd yn ei longau, a Bendigaid Fran a'i luoedd yntau ar hyd y tir.

Yn Aberffraw, dechreu y wledd ac eistedd a wnaethant. Ac fel hyn yr eisteddasant,—Brenin Ynys y Cedyrn, a Manawyddan fab Llyr ar un tu, a Matholwch ar y tu arall, a Branwen ferch *Fel y* Llyr gydag ef. Nid mewn tŷ yr oeddynt, *priododd* ond mewn pebyll,—yr oedd Bendigaid *Branwen.* Fran yn rhy fawr i'r un tŷ ei gynnwys. Dilyn y gyfeddach a wnaethant ag ymddiddan. A phan welsant fod yn well iddynt gymryd hun na dilyn y gyfeddach, i gysgu yr aethant.

A thrannoeth cyfodi a wnaeth pawb o nifer y llys, a'r swyddwyr a ddechreusant drefnu am raniad y meirch â'r gweision, a'u rhannu a wnaethant ymhob cyfair hyd y môr. Ac ar hynny, ddyddgwaith, wele Efnisien, y gŵr anhangnefeddus y dywedasom ni uchod, yn dyfod i lety meirch Matholwch, a gofyn a wnaeth pwy oedd biau y meirch.

“Meirch Matholwch, brenin Iwerddon, yw y rhai hyn,” ebe hwy.

“Beth a wnant hwy yma ?” ebe ef.

“Yma y mae brenin Iwerddon,—priododd Franwen dy chwaer, a'i feirch ef yw y rhai hyn.”

“Ai felly y gwnaethant â morwyn gystal a honno, ac yn chwaer i minnau ? Ei rhoddi heb fy nghennad i ? Ni allent hwy roddi dirmyg mwy arnaf na hyn,” ebe ef.

Ac yn hynny gwanodd dan y meirch, a thorrodd eu gweflau wrth eu dannedd, a'u clustiau wrth eu pennau, a'u rhawn wrth eu cefn. A'r lle ni chai graff ar yr amrantau, y torrai hwynt hyd *Fel yr hau-* at yr asgwrn. A gwnaeth anffurf ar y *wyd drwg.* meirch felly, hyd nad oeddynt o ddim defnydd.

Y newydd a ddaeth at Fatholwch, yn dywedyd am anffurfio'r meirch a'u difetha hyd nad oedd dim mwyniant a ellid ohonynt.

"Ie, arglwydd," ebe un, "dy waradwyddo a wnaethpwyd, a hynny a fynnir wneud iti."

"Dioer, rhyfedd yw gennyf, os fy ngwaradwyddo a fynnent, iddynt roddi morwyn o haniad mor uchel a chyn anwyled gan ei chenedl ag a roddasant i mi."

"Arglwydd," ebe un arall, "ti a weli mai hyn yw eu hamcan, ac nid oes dim iti wneud ond cyrchu tua'th longau." Ar hynny, gorchymyn ei longau a wnaeth.

Y newydd a ddaeth at Fendigaid Fran fod Matholwch yn gadael y llys heb ofyn cennad. A chenhadau a aeth i ofyn iddo paham y gwnai hynny; sef y cenhadau a aeth,—Iddig fab Anarawc ac Efeydd Hir. Y gwŷr hyn a'i goddiweddodd, ac a ofynasant iddo pa ddarpar oedd yr eiddo, ac o achos beth yr oedd yn myned ymaith.

"Yn wir," ebe yntau, "pe gwypwn, ni ddeuwn yma. Cwbl waradwydd a gefais,—ni fu taith neb yn waeth na fy un i yma. A rhyfedd iawn i mi yw un peth."

"Beth yw hynny?" ebe hwy.

"Roddi Branwen ferch Llyr,—un o dair prif riain yr ynys hon, ac yn ferch i frenin Ynys y Cedyrn,—i mi'n wraig, ac wedi hynny fy ngwaradwyddo. Rhyfedd yw gennyf na fuasai yn fy ngwaradwyddo cyn roddi i mi forwyn gystal a hi."

"Yn sicr, arglwydd, nid o fodd y neb fedd y llys," ebe hwy, "na neb o'i gyngor y gwnaethpwyd y gwaradwydd hwnnw iti. Ac er mai gwaradwyddus gennyf ti yw hynny, mwy yw gan Fendigaid Fran y gwarth hwnnw a'r sarhad."

"Ie," ebe ef, "mi a debygaf. Er hynny ni all byth fy niwaradwyddo i o hynny." Y gwŷr hynny a ddychwelasant a'r ateb hwnnw tua'r lle yr oedd Bendigaid Fran, a mynegi iddo yr ateb a roddasai Matholwch.

“Ie,” ebe yntau, “ac nid oes ymwared o’i fyned ef ymaith yn anhangnefeddus, ac nis gadawn iddo.”

“Ie, arglwydd,” ebe hwy, “anfon eto genhadau ar ei ol.”

“Anfonaf,” ebe ef. “Cyfodwch, Manawyddan fab Llyr, ac Efeydd Hir, ac Unig Glew Ysgwydd, ac ewch ar ei ol a mynegwch iddo y caiff farch iach am bob un a anafwyd. A chyda *Fel y rhodd-hynny* efe a gaiff yn iawn wialennau o *wyd iawn*. arian a fo leted a chyhyd ag ef ei hun, a chlawr aur cyffled a’i wyneb. A mynegwch iddo pa ryw wŷr a wnaeth hynny, ac mai o’m hanfodd innau y gwnaethpwyd ef, ac mai brawd un-fam a mi a wnaeth y drwg, ac nad hawdd gennyf finnau na’i ladd na’i ddifetha. Deued i ymweled â mi, a mi a wnaf ei dangnefedd ar y llun y mynno ei hun.”

Y cenhadau a aethant ar ol Matholwch, a mynegasant iddo yr ymadrodd hwnnw yn garedig, ac efe a’u gwrandawodd.

“Ha wŷr,” ebe ef, “ni a gymerwn gyngor.” Ac efe a aeth i’r cyngor, a meddylasant, os gwrthod y telerau hynny a wnelent, fod yn debycach y cawsent gywilydd a fyddai fwy, na chael iawn a fyddai cymaint. A phenderfynu a wnaethant gymryd hynny, ac i’r llys y daethant yn dangnefeddus.

A threfnu y pebyll a’r lluestai a wnaethant iddynt yn y dull y trefnir neuadd, a myned i fwyta. Ac fel y dechreusant eistedd ar ddechreu y wledd yr eisteddasant yn awr. A dechreu ymddiddan a wnaeth Matholwch â Bendigaid Fran. A chanfu Bendigaid Fran ef yn siarad yn araf a thrist wrth ei lawenydd yn wastad cyn hynny. A meddwl a wnaeth fod yr unben yn athrist oherwydd fychaned a gawsai o iawn am ei gam.

“Ha wŵr,” ebe Bendigaid Fran, “nid wyt gystal ymddiddanwr heno ac un nos; os bychan yw gennyf dy iawn, ti a gei ychwanegu ato a fynni dy hun. Yfory talaf i ti dy feirch.”

“Arglwydd, Duw a dalo i ti,” ebe Matholwch. “Mi a ychwanegaf dy iawn, hefyd,” ebe Bendigaid Fran, “mi a roddaf bair iti. A rhinwedd y pair yw,—y gŵr a ladder heddyw, i ti ei fwrw i'r pair, ac erbyn y fory bydd yn gystal ag y bu ar ei oreu, eithr na bydd lleferydd ganddo.”

Diolch a wnaeth Manawyddan iddo a dirfawr lawenydd a gymer ynddo o'r achos hwnnw. A thrannoeth y talwyd ei feirch iddo tra y parhaodd meirch dof; ac oddiyno aethant gydag ef i gwmwd arall, ac y talwyd ebolion iddo, hyd y talwyd y cwbl. Ac am hynny y dodwyd ar y cwmwd hwnnw, o hynny allan, yr enw Tal Ebolion.

A'r ail nos eistedd i gyd a wnaethant. “Arglwydd,” ebe Matholwch, “o ble y daeth iti y pair a roddaist i mi?”

“Daeth i mi,” ebe yntau, “oddiwrth wŵr fu yn dy wlad di, ond nis gwn ai yno y cafodd efe ef.”

“Pwy oedd hwnnw?” ebe ef.

“Llasar Llaesgyfnewid,” ebe ef, “a hwnnw a ddaeth yma o Iwerddon, a Chymidau Cymeinfoll ei wraig gydag ef, a diangasant o'r tŷ haearn yn Iwerddon pan wnaethpwyd ef yn wynias o'u hamgylch, ac y diangasant oddiyno. A rhyfedd yw gennyf oni wyddost ti ddim am hynny.”

“Gwn, arglwydd,” ebe ef, “a chymaint ag a wn mi a'i mynegaf i ti. Yn hela yr oeddwn ddyddgwaith yn Iwerddon, ar ben gorsedd a oedd uwchben llyn yn Iwerddon. A Llyn y Pair y galwyd ef. A mi a welwn wŵr melyngoch mawr yn dyfod o'r llyn, a phair ar ei

gefn, gŵr mawr anferthol ac ôl drygwaith arno; a gwraig yn ei ol. Ac os oedd ef fawr, mwy ddwywaith oedd ei wraig nag ef. A chyrcu ataf a wnaethant, a chyfarch gwell i mi."

"Ie," ebe mi, "pa gerdded sydd arnoch chwi?"

"Dyma, arglwydd," ebe ef, "y rhyw gerdded sydd arnom ni. Ymhen pythefnos a mis y bydd baban gan y wraig hon. A'r mab a aner ganddi, ar ben ei bythefnos a mis a fydd yn ŵr ymladd, llawn arfau."

Cymerais arnaf eu cadw hwy; a buant gyda mi am flwyddyn, ac am flwyddyn y cefais hwy yn ddiwarafun, o hynny allan y gwarafunwyd hwy i mi. A chyn pen y pedwerydd mis parasant hwy eu hunain eu cashau yn y wlad trwy wneuthur drygau, a phoeni a gofidio y gwŷr-da a'r gwragedd da. O hynny allan cynhullodd fy nheyrnas am fy mhen, gan erchi i mi ymadael â hwy, a rhoddi dewis i mi, naill ai fy nheyrnas neu hwy. Dodais innau ar gyngor fy ngwlad beth a wneid â hwy. Nid aent hwy o'u bodd, ac nid oedd modd eu gyrru o'u hanfodd trwy ryfel. Ac yna yn y cyfynggyngor y penderfynasant wneud ystafell haearn oll. Ac wedi bod yr ystafell yn barod, cyrcu pob gôf yn Iwerddon yno a oedd berchen gefail a morthwyl, a pheri gosod cyfuch a chrib yr ystafell o lo, a pheri rhoddi bwyd a diod yn ddiwall i'r wraig, a'i gŵr, a'i phlant. A phan wybuwyd eu bod wedi meddwi y dechreuwyd cymysgu tân â'r glo oedd oddeutu'r ystafell, a chwythu y meginau hyd nes yr oedd y tŷ yn wynias am eu pen. Ac yna y bu cyngor ganddynt ar ganol llawr yr ystafell, ac arhosodd y gŵr hyd nes oedd yr ochrau haearn yn wyn. A rhag dirfawr wres y cyrchodd yr ochr â'i ysgwydd, ac a'i tarawodd allan; ac ar ei ol yntau daeth ei wraig. Ac ni ddihangodd neb oddiyno

namyn ef a'i wraig. "Ac yna, i'm tyb i, arglwydd," ebe Matholwch wrth Bendigaid Fran, "y daeth ef drosodd atat ti."

"Yn ddiau," ebe yntau, "daeth yma, a rhoddodd y pair i minnau."

"Pa ddelw, arglwydd, y derbynaiest ti hwynt hwy?"

"Eu rhannu ym mhob lle yn fy mrenhiniaeth. Ac y maent yn lliosog, ac yn llwyddo ym mhob lle, ac yn cadarnhau y man y maent â'r gwŷr ac arfau goreu a welodd neb."

Dilyn ymddiddan a wnaethant y nos honno tra fu dda ganddynt, a cherdd a chyfeddach. A phan welsant fod yn llesach iddynt fynd i gysgu nac eistedd yn hwy, i gysgu yr aethant. Ac felly y treuliasant y wledd honno trwy ddigrifwch. Ac yn niwedd hynny cychwynnodd Matholwch, a Branwen gydag ef, tuag Iwerddon. Ac o Aber Menai y cychwynasant, mewn tair llong ar ddeg, a daethant hyd yn Iwerddon.

Yn Iwerddon dirfawr lawenydd fu wrthynt. Ni ddeuai gŵr mawr na gwraig dda yn Iwerddon i ymweled â Branwen na roddai hi naill ai breichled, neu fodrwy, neu deyrndiws gwerthfawr iddo,—a fyddai arbennig i'w weled yn myned ymaith. A chlodfawr oedd hi yn eu mysg y flwyddyn honno; aeth ei chlod yn fwy, a'i chyfeillion yn lliosocach. Ac heblaw hynny, mab a aned iddi, a'r enw rodded arno oedd Gwern fab Matholwch. A rhoddi y mab ar faeth a wnaethpwyd yn y lle goreu yn Iwerddon.

Yn yr ail flwyddyn dyna gynnwrf yn Iwerddon am y gwaradwydd a gawsai Matholwch yng Nghymru, a'r siom wnaed iddo am ei feirch. Am hynny ei frodyr maeth, a'r rhai nesaf ato, a aethant yn lliidiog tuag ato heb gelu. Ac wele ymgyfarfod yn Iwerddon fel na chai Matholwch lonydd nes dial ei

*Fel y
poenwyd
Branwen.*

sarhad. A'r dial a wnaethant oedd gyrru Branwen o'r un ystafell ag ef, a'i gorfodi i bobî yn y llys, a pheri i'r cigydd, wedi iddo fod yn dryllio y cig, ddyfod a tharo bonclust iddi beunydd. Ac felly y gwnaethpwyd ei phenyd.

"Ie, arglwydd," ebe ei wŷr wrth Fatholwch, "par, weithian, wahardd y llongau a'r ysgraffau a'r corigau fel nad el neb i Gymru; ac a ddel yma o Gymru, carchara hwy, fel nad elont drachefn, rhag gwybod hyn."

Ac felly y bu, a blynyddoedd nid llai na thair blynedd y buont felly. Ac yn ystod yr amser hynny magodd Branwen aderyn drudwen, a dysgodd iaith iddi pan safai ar ymyl y noe gyda hi. A mynegodd i'r aderyn y rhyw wŷr oedd ei brawd; ac ysgrifennodd lythyr am y penydiau a'r amharch oedd arni; a rhwymodd y llythyr am fôn esgyll yr aderyn, ac anfonodd hi tua Chymru. A'r aderyn a ddaeth i'r ynys hon, a'r lle y cafodd Fendigaid Fran oedd yng Nghaer Saint yn Arfon. Disgynnodd ar ei ysgwydd, ac ysgydwodd ei phlu nes y gwelwyd y llythyr, ac y deallwyd i'r aderyn gael ei magu yn ddof.

Ac yna cymryd y llythyr, a'i edrych a wnaed; a phan ddarllenwyd y llythyr, ymboeni a wnaeth Bendigaid Fran am glywed y benyd a oedd ar Branwen; a dechreu anfon o'r lle hwnnw genhadau i gynnull yr ynys hon ynghyd. Ac yna y galwodd ato holl alluoedd pedair gwlad a saith ugain yn llwyr, a chwyno ei hun a wnaeth wrthynt am y boen oedd ar ei chwaer. Ac yna cymerwyd cyngor, ac yn y cyngor penderfynwyd myned i'r Iwerddon, a gadael seithwyr yn dywysogion yma, a Charadog fab Bran yn bennaf ar y saith marchog. Yn Edeyrnion y gadawyd y gwŷr hyn. Ac o achos hynny y dodwyd saith marchog ar y dref. A'r saith wŷr oedd-ynt,—Caradog fab Bran, ac Efeydd Hir, ac Unig Glew

Ysgwydd, ac Iddig fab Anarawg Walltgrwn, a Ffodor fab Erfyll, ac Wlch Minasgwrn, a Llashar fab Llaesar Llaes-gygydd, a Phendaran Dyfed yn was ieuanc gyda hwy. Y saith hyn a drigodd yn saith goruchwyliwr i ofalu am yr ynys hon. A Charadog fab Bran oedd ben goruchwyliwr arnynt.

Bendigaid Fran a'r nifer a ddywedasom ni a hwyl-iasant tuag Iwerddon. Ac wrth nad oedd y weilgi yn fawr, daeth ef i ddwfr maes. Nid oedd
Fel yr aeth namyn dwy afon,—Lli ac Archan y gelwid
Bran i hwy. Wedi yr amser hynny y pellhaodd
Iwerddon. y weilgi y teyrnasoedd. Yna y cerddodd ef, a'i glud ar ei gefn ei hun, a daeth i dir Iwerddon. A gweision moch Matholwch oedd ar lan y môr, a hwy a ddaethant at Matholwch.

“Arglwydd,” ebe hwy, “henffych well.”

“Duw a roddo dda i chwi,” ebe ef. “Pa newydd sydd gennych?”

“Arglwydd,” ebe hwy, “mae gennym ni newyddion rhyfedd iawn,—coed a welsom ar y weilgi, yn y lle ni welsom erioed un pren.”

“Dyna beth rhyfedd,” ebe ef. “A welech chwi ddim namyn hynny?”

“Gwelem, arglwydd,” ebe hwy, “fynydd mawr gerllaw y coed, a hwnnw ar gerdded. Ac ochr aruchel oedd i'r mynydd, a llyn o bob tu i'r ochr. A'r coed a'r mynydd a phopeth o hyn oll oedd ar gerdded.”

“Ie,” ebe yntau, “nid oes yma neb a wypo beth yw hyn, onis gŵyr Branwen. Gofynnwch iddi.”

Cenhadau a aeth at Franwen.

“Arglwyddes,” ebe hwy, “beth a debygi di yw hynny?”

“Gwŷr Ynys y Cedryn yn dyfod drwodd o glywed am fy mhoen a'm hamarch.”

“Beth yw y coed a welid ar y môr?” ebe hwy.

“Gwernenau llongau a hwylbrenni,” ebe Branwen.

“Och,” ebe hwy, “beth oedd y mynydd a welid wrth ystlys y llongau?”

“Bendigaid Fran, fy mrawd i,” ebe hi, “oedd hwnnw yn dyfod i'r dwfr maes. Nid oedd long ddigon o faint iddo.”

“Beth oedd yr ochr aruchel, a'r llyn o bob tu i'r ochr?”

“Efe yw,” ebe hi, “yn edrych yn llidiog ar yr ynys hon. Ei ddau lygad o bob tu i'w drwyn yw y ddau lyn o bob tu i'r ochr.”

Ac yna casglu holl wŷr ymladd Iwerddon a wnaethant, ynghyda'r holl fôr-benaethiaid yn gyflym. A chyngor a gymerwyd.

“Arglwydd,” ebe ei wŷr-da wrth Fatholwch, “nid oes gyngor ond cilio dros Linon—afon oedd yn Iwerddon—a gadael Llinon rhyngot ti ag ef, a thorri y bont sydd ar yr afon. A meini sugn sydd yng ngwaelod yr afon, ac ni eill na llong na llestr ei nofio.”

Hwy a giliasant dros yr afon ac a dorasant y bont.

Bendigaid Fran a ddaeth i'r tir, a'i lynges gydag ef, tua glan yr afon.

“Arglwydd,” ebe ei wŷr-da, “ti a wyddost natur yr afon. Ni eill neb fyned trwyddi. Nid oes bont arni hithau. Beth yw dy gyngor am bont?” ebe hwy.

“Nid oes gennyf gyngor,” ebe yntau, “ond, ‘a fo ben bydded bont.’ Myfi a fyddaf bont.”

A'r pryd hwn y dywedwyd y gair hwnnw, ac y mae'n ddihareb eto. Ac wedi iddo orwedd ar draws yr afon, bwriwyd clwydau arno, ac aeth ei luoedd drosto i'r ochr arall. A chydag iddo godi, dyma genhadon Matholwch yn dyfod ato ac yn cyfarch gwell iddo, ac yn ei annerch oddiwrth Fatholwch ei gyfathrachwr, a mynegi na

haeddai ef o'i fodd namyn da. "Ac y mae Matholwch yn rhoddi brenhiniaeth Iwerddon i Wern fab Matholwch, dy nai dithau, fab dy chwaer. A hyn y mae yn ei roddi yn dy wŷydd, yn lle y cam a'r gwarth a wnaethpwyd i Franwen. Ac yn y lle y mynni di, ai yma, ai yn Ynys y Cedyrn, y bydd Matholwch byw."

"Ie," ebe yntau Bendigaid Fran, "oni allaf fi fy hun gael y frenhiniaeth, ni chymeraf gyngor am eich cenadwri chwi. O hyn hyd nes y daw cenadwri amgen, ni chewch ateb gennyf fi."

"Ie," ebe hwythau, "yr ateb goreu a gaffym ninnau i'w ddweyd wrthyt, ni a ddeuwn ag ef. Ac aros dithau ein cenadwri ni."

"Arhosaf," ebe ef, "a dowch yn ebrwydd."

Y cenhadau a aethant rhagddynt, a daethant at Fatholwch.

"Arglwydd," ebe hwy, "paratua ateb a fo gwell i Fendigaid Fran; ni wrandawai ddim ar yr ateb oedd gennym ni iddo."

"Ha wŷr," ebe Matholwch, "beth yw eich cyngor chwi?"

"Arglwydd," ebe hwy, "nid oes iti gyngor ond un. Ni thrigodd ef mewn tŷ erioed," ebe hwy. "Gwna dithau dŷ i'w gynnwys ef a gwŷr Ynys y Cedyrn yn y naill borth i'r tŷ, a thithau a'th lu yn y porth arall, a dyro dy frenhiniaeth i'w law, a gwna warogaeth iddo. Ac o anrhydedd gwneuthur y tŷ iddo," ebe hwy, "peth na chafodd erioed dŷ a'i cynhwysai ynddo, efe a dangnefedda â thi."

A'r cenhadau a aethant a'r genadwri honno at Fendigaid Fran. Yntau a gymerth gyngor, ac yn y cyngor penderfynwyd ei derbyn; a thrwy gyngor Branwen y bu hynny oll, a rhag dinistrio y wlad y gwnaeth hynny.

Ar y cytundeb hwnnw y penderfynasant a'r tŷ a adeiladwyd yn fawr ac eang. Ac ystryw a wnaeth y Gwyddyl, a'r ystryw oedd doddi hoel o bob tu i bob colofn o'r can colofn a oedd *Fel y bu yn y tŷ, a doddi boli croen ar bob hoel a tangnef a gŵr arfog ym mhob un ohonynt. brad.*

A hyn a wnaeth Efnisien,—dyfod i fewn o flaen llu Ynys y Cedyrn, ac edrych, â golygon gorwyllt anrhugarog, ar hyd y tŷ, a gweled y boliau erwyn oedd ar y pyst.

“Beth sydd yn y boli hwn?” ebe ef wrth un o'r Gwyddyl.

“Blawd, enaid,” ebe yntau.

Teimlodd Efnisien y boli, nes y clywodd ben y dyn, a gwasgodd y pen hyd oni chlywodd ei fysedd yn cyfarfod yn ei ymennydd trwy'r asgwrn.

A gadael hwnnw a wnaeth, a doddi ei law ar un arall a gofyn,—

“Beth sydd yma?”

“Blawd,” meddai y Gwyddyl.

A'r un chware a wnaeth ef â phawb ohonynt, hyd nas gadawodd efe ŵr byw o'r oll ddau can ŵr, eithr un. A dyfod at hwnnw a wnaeth a gofyn,—

“Beth sydd yma?”

“Blawd, enaid,” ebe'r Gwyddyl.

A'i deimlo a wnaeth yntau hyd nes y cafodd ei ben, ac fel y gwasgasai bennau y rhai eraill y gwasgodd ben hwn. Clywodd arfau am ben hwnnw, ond nis gadawodd ef nes ei ladd.

Ac yna canodd englyn,—

“Yssit yn y boli hwn amryw-flawt;
Ceimeit cynnifeit disgynneit,
Yn trin rac cytwy'r cat barawt.”*

* Yn y sach hon mae blawd neilltuol, milwyr heinif wedi disgyn i'r ymladdfa, ymladdfa wedi ei pharatoi cyn yr ymladd-wyr.

Ac ar hynny daeth y niferoedd i'r tŷ a daeth gwŷr o Ynys Iwerddon i'r tŷ o'r naill borth, a gwŷr o Ynys y Cedryn o'r porth arall. A chyn gynted ag yr eisteddasant y bu undeb rhyngddynt, ac y rhoddwyd y frenhiniaeth i'r mab. Ac yna wedi fod tangnef, galwodd Bendigaid Fran y mab ato. A dygodd Bendigaid Fran y mab at Fanawyddan. A phawb a'i gwelai a'i carai. Ac oddiwrth Fanawyddan y galwodd Nisien fab Euroswydd y mab ato. Y mab a aeth ato yn dirion.

“Paham,” meddai Efnisien, “na ddaw fy nai fab chwaer ataf fi? Pe na byddai'n frenin ar Iwerddon, da fuasai gennyf ymdirioni â'r mab.”

“Aed yn llawen,” ebe Bendigaid Fran. Y mab a aeth ato yn llawen.

“I Dduw y dygaf fy nghyffes,” ebe yntau yn ei feddwl, “mai anhebig gan y teulu yw y gyflafan a wnaif fi yr awr hon.” A chodi i fyny a wnaeth, a chymryd y mab gerfydd ei draed; ac heb oedi, a chyn cael o undyn afael ynndo, gwanodd y mab yn wysg ei ben i'r tân cynheuedig.

A phan welodd Branwen y mab yn boeth yn y tân, hi a geisiodd neidio i'r tân o'r lle yr oedd yn eistedd rhwng ei dau frawd; ond gafaelodd Bendigaid Fran ynddi âg un llaw, a'i darian yn y llaw arall. Ac yna cododd pawb ar hyd y tŷ, a dyma y cynnwrf mwyaf a fu gan deulu unty—pawb yn cymryd ei arfau. Ac yna y dywed Morddwyd Tyllion,—“Gwern gwyngoch! Och! Forddwyd Tyllion.” A phan oedd pawb yn defnyddio eu harfau, daliodd Bendigaid Fran Branwen rhwng ei darian a'i ysgwydd. Ac yna y dechreuodd y Gwyddelod gynneu tân dan y pair dadeni; ac yna bwriwyd y cyrff i'r pair hyd nes oedd yn llawn; a thrannoeth cyfodent yn wŷr ymladd cystal ag o'r blaen, eithr na allent siarad.

A phan welodd Efnisien gyrff gwŷr o Ynys y Cedyrn heb fywyd yn yr un man, y dywedodd yn ei feddwl,— “O fy Nuw,” ebe ef, “gwae fi fy mod yn achos y golled hon o wŷr Ynys y Cedyrn, a gwarth fydd i mi os na cheisiaf ymwared rhag hyn.” A gorweddodd ymhlith cyrff y Gwyddyl, a daeth dau Wyddel bonllwm ato, a’i fwrw i’r pair, yn rhith Gwyddel. Ymestynnodd yntau yn y pair, hyd nes y torrodd y pair yn bedwar dryll. Ac yna torrodd ei galon yntau. Ac oherwydd hynny y bu fyw hynny a fu byw o wŷr Ynys y Cedyrn, ac ni bu fyw oddieithr dianc o seithwŷr, a brathu Bendigaidd Fran yn ei droed â gwenwyn waew. Y seithwyr a ddihengodd oedd Pryderi, Manawyddan, Glifleri, Eil Taran, Taliesin, Ynawg Gruddieu fab Muriel, a Heilyn fab Gwyn Hen.

Ac yna y parodd Bendigaidd Fran iddynt dorri ei ben. “A chymerwch chwi y pen,” ebe ef, “a dygwch ef i’r Gwynfryn yn Llundain, a chleddwch ef yno a’i wyneb at Ffrainc, a chwi a *Fel y daeth* fyddwch ar y ffordd yn hir. Yn Harlech *saith o* y byddwch saith mlynedd ar ginio, ac *Iwerddon.* adar Rhianon yn canu i chwi. A bydd cystal gennych gymdeithas y pen ag y bu oreu gennych pan fu arnaf fi erioed. Ac yng Nghwalas ym Mhenfro y byddwch bedwar ugain mlynedd. A gellwch fod yno a’r pen yn ddilwgr gennych hyd nes yr agoroch y drws sy’n wynebu Aber Henfelen tua Chernyw. Ac o’r pan agoroch y drws hwnnw ni allwch fod yno, ond cyrchwch Lundain i gladdu y pen, ac ewch ymlaen rhagddoch.”

Ac yna torrwyd ei ben ef, a chychwynnodd y seithwŷr hynny drwodd gan ddwyn y pen gyda hwy, a Branwen yn wythfed. Ac yn Aber Alaw yn Nhal Ebolion y daethant i’r tir, ac yno eistedd a wnaethant a

gorffwys. Ac edrychodd Branwen ar Iwerddon ac ar Ynys y Cedyrn,—hynny welai ohonynt.

“O fab Duw,” ebe hi, “gwae fi o’ m genedigaeth. Nid da difetha dwy ynys o’ m hachos i.”

A doddi ochenaid fawr a wnaeth, a *Fel y bufarw* thorrodd ei chalon ar hynny. A hwy a *Branwen*. wnaethant fedd petryal iddi, ac a’i claddasant ar lan afon Alaw.

Wedi hynny cerdded a wnaeth y seith-wŷr tua Harlech, a’r pen ganddynt. Fel yr oeddynt yn cerdded, dyma dyrfa o wŷr a gwragedd yn cyfarfod â hwy.

“A oes gennyhych chwi newyddion?” ebe Manawyddan.

“Nac oes,” ebe hwy, “ond goresgyn o Gaswallon fab Beli Ynys y Cedyrn, a’i fod yn frenin coronog yn Llundain.”

“Beth ddarfu,” ebe hwythau, “Caradog fab Bran, a’r seith-wŷr adawyd gydag ef yn yr ynys hon?”

“Daeth Caswallon i’w herbyn, a lladdodd y chwe-gwŷr, a thorrodd Caradog yntau ei galon o dristwch am weled cleddyf yn lladd ei wŷr, ac na wyddai pwy a’u lladdai.” Yr oedd Caswallon yn gwisgo llen hŷd am dano, ac ni chanfyddai neb ef yn lladd y gwŷr, ond gwelent ei gleddyf yn unig. “Ni fynnai Caswallon ei ladd yntau, ei nai fab ei gefnder oedd.” Ahwnnw oedd y trydydd dyn a dorrodd ei galon o alar. “Pendaran Dyfed, a oedd yn was ieuanc gyda’r seith-wŷr, a ddihangodd i’r coed,” ebe hwy.

Ac yna y cyrchasant hwythau Harlech, ac a ddechreuasant eistedd ac ymddiwallu â bwyd a diod. A daeth tri aderyn gan ddechreu canu iddynt *Fel y can-* ryw gerdd,—ac o bob cerdd a glywsant, *odd adar* difwyn oedd pob un wrthi hi. Ac er fod *Rhianon*. yr adar i’w gweled ymhell uwchben y weilgi allan, cyn amlyced oeddynt iddynt a phe byddent gyda hwy. Ac wrth y cinio hwnnw y

buont saith mlynedd. Ac ymhen y seithfed flwyddyn y cychwynasant tua Gwales, ym Mhenfro. Ac yno yr oedd iddynt le teg brenhinol uwch ben y weilgi. A neuadd fawr oedd yno iddynt, ac i'r neuadd yr aethant. A'i dau ddrws oedd yn agored, a'r trydydd ddrws, yr hwn wynebai tua Chernyw, oedd ynghauad.

“Weldi,” ebe Manawyddan, “dacw y drws ni ddylem ni ei agor.”

A'r nos honno y buont yno yn ddi-wall a diddan ganddynt. Ac er a welsent o fwyd yn eu gwydd, ac a glywsent am dano, ni ddoi i'w cof ddim amdanynt hwy, nac am alar o fath yn y byd. Ac yno y treuliasant hwy y pedwar ugain mlynedd, fel na wybuant iddynt erioed dreulio ysbaid mor ddifyr a hyfryd a hwnnw. Nid oeddynt anesmwythach ar gwmni ei gilydd na phan ddaethant yno gyntaf, ac ni fu anesmwythach ganddynt gyd-fyw â'r pen na phan fuasai Bendigaid Fran yn fyw gyda hwy. Ac o achos hynny y pedwar ugain mlynedd a elwid,—“Ysbaid Urddawl Ben.” Ysbaid Branwen a Matholwch oedd yr amser yr aethpwyd i Iwerddon.

Hyn a wnaeth Heilyn fab Gwyn un diwrnod,—“Mefl ar fy marf onid agoraf y drws,” ebe ef, “oni agoraf y drws i wybod ai gwir ddywedir am dano.”

Agor y drws a wnaeth, ac edrych ar *Fel yr*
Gernyw ac ar Aber Henfelen. A phan *agorwyd*
edrychasant, yr oedd mor hysbys gan- *drws y de.*
ddynt bob colled a gollasant erioed, pob
câr a chydymaith a gollasant, a phob drwg a'i cyfarfydd-
odd, a phe bai yno y cyferfuasai â hwy,—ac yn bennaf
am eu harglwydd.

Ac o'r awr honno ni allasant orffwys, namyn cychwyn a'r pen tua Llundain. Pa hyd bynnag y buont ar y ffordd, hwy a ddaethant hyd yn Llundain, a chladdasant y pen yn y Gwynfryn.


A hwnnw fu y trydydd madcudd pan guddiwyd ; a'r trydydd anfad ddatcudd, pan ddatguddiwyd ; canys ni ddeuai gormes byth drwy fôr i'r ynys hon tra y byddai y pen yn y cudd hwnnw.

A dyma fel y dywed y cyfarwydd eu hanes hwy,— y gwŷr y cychwynnwyd Iwerddon ohonynt. Yn Iwerddon ni adawyd dyn byw namyn pum gwraig mewn ogof yn niffaethwch Iwerddon. O'r pum gwragedd hynny ganed pum mab yn yr un cyfnod ; a magasant hwy nes y daethant yn fawr. A rhanwyd y wlad rhyngddynt ill pump. Ac o achos y rhaniad hwnnw y gelwir eto bum rhan Iwerddon. Ac edrych y wlad a wnaethant ffordd y buasai rhyfeloedd, a chael aur ac arian nes oeddynt gyfoethog.

A dyma fel y terfyna y gainc hon o'r Mabinogi ynghylech dyrnod Branwen,—yr hon a fu y drydedd anfad ddyrnod yn yr ynys hon ; ac ynghylech Bran pan aeth gwŷr deg gwlad a saith ugain i'r Iwerddon i ddial dyrnod Branwen ; ac am y cinio yn Harlech saith mlynedd ; ac am ganiad adar Rhianon ac am fywyd pen bedwar ugain mlynedd.



CAMPBELL
COLLECTION



“A'R BAEDD A REDODD YN FUAN I'R GAER.” t.d. 59.

Manawyddan Fab Llyr.

DYMA Y DRYDEDD GAINC O'R MABINOGLI.

WEDI darfod i'r seith-wŷr ddywedasom ni uchod gladdu pen Bendigaid Fran yn y Gwynfryn, yn Llundain, a'i wyneb ar Ffrainc, edrych a wnaeth Manawyddan ar dref Llundain ac ar ei gymdeithion, a dodi ochenaid fawr, a chymryd dirfawr alar a hiraeth ynddo.

“O Dduw holl-gyfoethog, gwae fi!” *Fel y galar-*
ebe ef, “nid oes neb heb le iddo heno *odd Man-*
namyn mi.” *awyddan.*

“Arglwydd,” ebe Pryderi, “na fydded gyn drymed gennyt â hynny. Dy gefnder sydd frenin Ynys y Cedyrn,” ebe ef. “Er ei fod yn gwneud cam â thi, buost ti hawliwr tir a daear erioed,—trydydd lleddf unben wyt.”

“Ie,” ebe ef, “er mai cefnder i mi yw y gŵr hwnnw, go athrist yw gennyf weled neb yn lle Bendigaid Fran, fy mrawd, ac ni allaf fod yn llawen yn yr unty ag ef.”

“A wnei dithau gyngor arall?” ebe Pryderi.

“Rhaid i mi wrth gyngor,” ebe ef, “pa gyngor yw hwnnw?”

“Saith cantref adawyd i mi,” ebe Pryderi, “a Rhianon fy mam sydd yno. Mi a roddaf iti honno, a meddiant y saith gantref gyda hi; ac er na bai iti o frenhiniaeth ond y saith cantref hynny, nid oes well saith cantref na hwy. Cicfa, ferch Gwyn Gloew, yw fy ngwraig innau. Ac er

mai yn fy enw i y bydd yr etifeddiaeth, boed y mwyniant i ti a Rhianon ; a phe mynnit frenhiniaeth erioed, ysgatfydd y ceffit ti honno.”

“ Na fynnaf, unben,” ebe ef, “ y nef a dalo i ti am dy garedigrwydd.”

“ Gwnaf y caredigrwydd mwyaf allaf â thi, os mynni.”

“ Mynnaf, enaid, y nef a dalo i ti ; a mi a af gyda thi i edrych Rhianon, ac i edrych y frenhiniaeth.”

“ Iawn y gwnei,” ebe yntau, “ a chredaf na chlywaist erioed wraig well ei hymddiddan na hi. Yr amser y bu hithau ar ei goreu, ni fu ferch harddach na hi ; ac hyd yn oed eto ni byddi anfoddlon ar ei phryd.”

A hwy a gerddasant rhagddynt, a pha hyd bynnag y buont ar y ffordd, daethant i Ddyfed. Ac erbyn eu dyfod i Arberth, yr oedd Rhianon a Chicfa wedi darparu gwledd iddynt. Yna dechreu cyd-eistedd ac ymddiddan a wnaeth Manawyddan â Rhianon. Ac o'r ymddiddan, tirioni a wnaeth ei fryd a'i feddwl wrthi, a chredu na welsai erioed wraig gyflawnach o brydferthwch ac addfwynder na hi.

“ Pryderi,” ebe ef, “ mi a fyddaf fel y dywedaist ti.”

“ Pa ddywediad oedd hwnnw ? ” ebe Rhianon.

“ Arglwyddes,” ebe Pryderi, “ mi a'th roddais yn wraig i Fanawyddan, fab Llyr.”

“ Minnau a fyddaf felly yn llawen,”

Fel y ebe Rhianon.

priododd “ Llawen yw gennyf finnau,” ebe Man-
Rhianon. awyddan, “ a'r nef a dalo i'r gŵr sydd yn rhoddi i mi garedigrwydd mor gywir a hwn.” Priodwyd Manawyddan â Rhianon.

“ Yr hyn na ddarfyddodd o'r wledd treuliwch chwi,” ebe Pryderi, “ a minnau a af i ddwyn fy ngwarogaeth i Gaswallon fab Beli hyd yn Lloegr.”

“Arglwydd,” ebe Rhianon, “yng Nghent y mae Caswallon; a thi a elhi orffen y wledd hon ac aros iddo yntau ddod yn nes.”

“Ninnau a arhoswn,” ebe ef. A'r wledd honno a dreuliasant.

A dechreu mynd ar gylch trwy Ddyfed a wnaethant, a'i hela, a chymryd eu digrifwech. Ac wrth rodio y wlad ni welsant erioed wlad fwy ei phreswylwyr na hi, na heldir gwell, nac amlach ei mêl a'i physgod na hi. A thyfodd cyfeillgarwch rhyngddynt ill pedwar, fel na fynnai yr un fod heb ei gilydd na dydd na nos.

A'r adeg hynny aeth Pryderi hyd yn Rhydychen i dalu gwarogaeth i Gaswallon. A dirfawr oedd y caredigrwydd gafodd yno, a diolchwyd iddo am dalu y warogaeth.

Ac wedi dychwelyd cymryd eu gwleddau a'u hesmwythter a wnaeth Manawyddan a Phryderi. Yn Arberth y dechreuasant wledda, canys prif lys oedd, ac oddi yno y dechreuai pob anrhydedd. Ac wedi y bwyta cyntaf y nos honno, tra yr oedd y gwasanaethwyr yn bwyta, cyfododd y pedwar ac aethant tua Gorsedd Arberth, a'u canlynwyr gyda hwy.

Ac fel yr eisteddasant yno, dyma dwrf; a chan faint y twrf, dyma gawod o niwl fel na welai yr un ohonynt ei gilydd. Ac ar ol y niwl, dyma hi yn goleuo pob lle. A phan edrychasant y *Fel y rhowd* ffordd y gwelent lawer praidd ac eiddo a *hud ar* phreswylfeydd cyn hynny, ni welent *Ddyfed*. ddim,—na thŷ, nac anifail, na mwg, na thân, na dyn, na phreswylfa,—ond tai y llys yn wag ddiffaith anghyfannedd,—heb ddyn, heb anifail ynddynt, a'u cyfeillion,—ond hwy eu pedwar,—wedi eu colli heb wybod dim amdanynt.

“O Dduw,” ebe Manawyddan, “pa le mae gwŷr y llys, a'n gwŷr ninnau, ond y rhai hyn? Awn i edrych.”

Dyfod i'r neuadd a wnaethant,—nid oedd yno neb. Aethant i'r castell a'r hun-dy; ni welent neb. Yn y fedd-gell ac yn y gegin, nid oedd amgen na diffaethwch. Dechreuodd y pedwar wledda, a hela, ac ymddifyrru, a rhodio y wlad a'u tir i edrych a welent dŷ neu breswylfa; ond ni welent ddim ond llydnod coed. Ac wedi cael eu gwledd a'u lluniaeth ohonynt, dechreuasant ymborthi ar gig hela, a physgod a mêl gwyllt. Ac felly y treuliasant y flwyddyn gyntaf a'r ail yn ddifyr, ond o'r diwedd diffygio a wnaethant.

“Yn wir,” ebe Manawyddan, “ni byddwn byw fel hyn. Awn tua Lloegr, a cheisiwn grefft y caffom ein hymborth oddiwrthi.”

Aethant i Loegr, a dod hyd yn Henffordd, a'r gwaith a gymerasant oedd gwneud cyfrwyau. A dechreuodd Manawyddan lunio y corfau, a'u lliwio â
Fel yr aeth chalch lasar, fel y gwelsai gan Lasar
pedwar i Llaesgygwydd, a gwneuthur calch lasar fel
Loegr. y gwnaeth y gŵr arall. Ac am hynny y gelwir ef eto'n galch lasar, am ei wneuthur gan Lasar Llaesgygwydd. A thra y ceid y gwaith hwnnw gan Fanawyddan, ni phrynnid na chorf na chyfrwy gan gyfrwywr dros wyneb Henffordd. Ac yn fuan canfu pob un o'r cyfrwy-yddion eu bod yn colli llawer o'u hennill, ac na phrynnid dim ganddynt hwy ond pan nas ceid gan Fanawyddan. Yna ymgynullasant oll, a phenderfynasant ei ladd ef a'i gydymaith. Cawsant hwythau rybudd am hyn, a chymerasant gyngor i adael y dref.

“Yn wir,” ebe Pryderi, “ni chynghoraf fi adael y dref, ond lladd y taeogion acw.”

“Nage,” ebe Manawyddan, “pe yr ymladdem â hwy, clod drwg a fyddai arnom, a'n carcharu a wneid. Gwell yw in’,” ebe ef, “fyned tua thref arall i ennill ein bywioliaeth ynddi.”

Ac yna aethant ill pedwar tua thref arall.

“Pa gelfyddyd,” ebe Pryderi, “a gymerwn yma?”

“Gwnawn dariannau,” ebe Manawyddan.

“A wyddom ni rywbeth am y grefft honno?” ebe Pryderi.

“Ni a'i profwn,” ebe yntau.

Dechreusant wneuthur tariannau, a'u llunio fel y tariannau da a welsent, a rhoddi arnynt y lliw a roddasent ar y cyfrwyau. A'r gwaith hwnnw a lwyddodd ganddynt, fel na phrynnid tarian yn yr holl dref, ond pan na cheid un ganddynt hwý. Cyflym oedd eu gwaith a difesur oedd y tariannau a wnaent. Buont felly hyd nes i'w cyd-drefwyr godi i'w herbryn, a phenderfynu ceisio eu lladd. Rhybudd a ddaeth iddynt hwythau, a chlywed fod y gwýr a'u bryd ar eu dienyddio.

“Pryderi,” ebe Manawyddan, “mae y gwýr hyn yn mynnu ein difetha.”

“Na chymerwn ninnau hynny gan y taeogiaid hyn awn i'w herbryn a lladdwn hwynt.”

“Nage,” ebe yntau, “Caswallon a'i wýr a glywai hynny,—a diwedd fyddai arnom. Awn i dref arall.”

I dref arall y daethant.

“Pa gelfyddyd yr awn ni wrthi yma?” ebe Manawyddan.

“Yr hon a fynni o'r rhai a wyddom ni,” ebe Pryderi.

“Nage,” ebe yntau, “gwnawn gryddiaeth, ac ni fydd calon gan gryddion i ymladd â ni, nac i'n gwarafun.”

“Ni wn i ddim am honno,” ebe Pryderi.

“Mi a'i gwn,” ebe Manawyddan, “a mi a ddysgaf iti wnio. Ac nid ymyrrwn â pharatoi y lledr, ond ei brynnu yn barod a gwneud y gwaith o hono.”

Ac yna dechreuodd brynnu y cordwal tecaf a gafodd yn y dref, a lledr, ond hwnnw ni phrynnai eithr yn lledr gwadnau. A dechreuodd ymgymdeithasu â'r eurych

goreu yn y dref, a pharodd iddo wneud byclau esgidiau ac euro y byclau, ac edrychodd arno nes y dysgodd eu gwneud ei hun,—ac o achos hynny y gelwid ef yn drydydd eur-grydd. Tra ceffid esgid neu hosan ganddo ef, ni phrynnid dim gan grydd yn yr holl dref. Canfu y cryddion fod eu hennill yn pallu iddynt, canys fel y lluniai Manawyddan y gwaith, y gwniai Pryderi.

Daeth y cryddion i gymryd cyngor, ac yn eu cyngor penderfynwyd eu lladd.

“Pryderi,” ebe Manawyddan, “y mae y gwŷr hyn yn mynnu ein lladd.”

“Paham y cymerwn ninnau hynny gan y taeogiaid lladron,” ebe Pryderi, “lladdwn hwy oll.”

“Nage,” ebe Manawyddan, “nid ymladdwn â hwy, ac ni fyddwn yn Lloegr yn hwy. Cyrchwn tua Dyfed, ac awn i’w hedrych.”

Pa hyd bynnag y buont ar y ffordd, hwy a ddaethant i Ddyfed, ac Arberth a gyrchasant. Cynneu tân a wnaethant, a dechreu ymborthi a hela, a threulio mis felly. A chynnullasant eu cŵn atynt, gan fod felly flwyddyn. A bore gwaith cododd Manawyddan a Phryderi i fyned i hela, a threfnu eu cŵn a myned oddiwrth y llys. Sef a wnaeth rhai o’r cŵn,—cerdded o’u blaen, a myned i berth fechan oedd ger eu llaw, a chydag yr aethant i’r berth, cilio yn ol yn gyflym a’u gwrychyn i fyny, a dychwelyd at y gwŷr.

“Neshawn,” ebe Pryderi, “tua’r berth i edrych beth sydd ynddi.”

Neshau tua’r berth a wnaethant, a phan nasant, dyma faedd coed claerwyn yn codi o’r berth. Hyn a wnaeth y cŵn,—y gwŷr yn hannos,—rhuthro arno. Hyn a wnaeth yntau,—gadael y berth a chilio encyd oddiwrth y gwŷr. A hyd nes byddai y gwŷr yn agos

iddo, cyfarthai ar y cŵn, heb gilio erddynt ; ond pan agoshai y gwŷr, ciliai eilwaith a pheidiai gyfarth.

Ac ar ol y baedd y cerddasant hyd oni welent gaer fawr aruchel, a gwaith newydd arni, mewn lle na welsent na maen na gwaith erioed. A'r baedd a redodd yn fuan i'r gaer, a'r cŵn ar ei ol.

Ac wedi myned y baedd a'r cŵn i'r gaer, rhyfeddu a wnaethant weld y gaer yn y lle ni welsent erioed waith cyn hynny.

Ac o ben yr orsedd edrych a wnaethant, ac ym-wrandaw am y cŵn. Pa hyd bynnag y byddent felly, ni chlywent un o'r cŵn, na dim oddiwrthynt.

“ Arglwydd,” ebe Pryderi, “ mi a af i'r gaer i holi ynghylch y cŵn.”

“ Yn wir,” ebe yntau, “ nid da dy gyngor fyned i'r gaer hon nas gwelaist erioed, ac os gwnei fy nghyngor i, nid ei iddi ; a'r neb a ddodes hud ar y wlad a beris fod y gaer yma.”

“ Yn wir,” ebe Pryderi, “ ni fynnaf golli fy nghŵn.”

A pha gyngor bynnag a gai gan Fanawyddan, i'r gaer yr aeth efe. Pan ddaeth i'r gaer, ni welai ynddi na dyn nac anifail, na'r baedd, na'r cŵn, na thŷ nac annedd. Ef a welai tua chanol llawr y gaer, ffynnon a gwaith o faen marmor o'i chylch ; ac ar lan y ffynnon gawg aur uwchben llech o faen marmor, a chadwynau yn estyn tua'r awyr, a diwedd nis gwelai arnynt. Ac ymhyfrydu a wnaeth yntau gan deced yr aur, a chyn ddaed y gwaith. A dyfod a wnaeth hyd at y cawg ac ymafael ag ef. Ac fel yr ymafaelodd â'r cawg, glynodd ei ddwyllaw wrth y cawg a'i draed wrth y llech yr oedd y cawg yn sefyll arni ; a chymerwyd ei leferydd oddi arno, fel nas gallai ddywedyd un gair. A sefyll a wnaeth felly.

A'i aros yntau a wnaeth Manawyddan hyd tua diwedd y dydd. A phrynhawn byr, wedi bod yn ddiau ganddo na chlywai ddim newyddion am Bryderi, na'r cŵn, daeth tua'r llys. Pan ddaeth i mewn, y peth a wnaeth Rhianon oedd edrych arno.

“ Pa le mae dy gydymaith di a'th gŵn ? ” ebe hi.

“ Dyma fy hanes,” ebe yntau, gan ei adrodd oll.

“ Yn wir,” ebe Rhianon, “ cydymaith drwg fuost di, a chydymaith da a gollaist di.” Gyda'r gair, aeth allan.

*Fel y
collwyd
Rhianon.*

Ac i'r ardal y mynegasai ef fod y gŵr a'r gaer, cyrchu yno a wnaeth hithau. Gwelodd borth y gaer yn agored, a phopeth yn eglur, ac i mewn yr aeth. Ac fel yr ai, gwelai Bryderi yn ymafael â'r cawg, a

daeth ato.

“ Och, arglwydd,” ebe hi, “ beth a wnai di yma ? ”

A gafaelodd yn y cawg gydag ef. A chydag iddi afael, glynnodd ei dwylaw hithau wrth y cawg, a'i dau droed wrth y llech, hyd nad allai hithau ddywedyd un gair. Ac ar hynny, gydag y bu nos, dyma dwrf yn eu hymyl a chawod o niwl; a chyda hynny, diflannu y gaer, ac ymaith a hwythau.

Pan welodd Cicfa, ferch Gwyn Gloew, nad oedd neb yn y llys namyn Manawyddan a hithau, ymofidodd gymaint fel na ofalai pa un ai byw ai marw wnai. Edrychodd Manawyddan ar hynny,—

“ Yn wir,” ebe ef, “ cam a wnai a mi, os mai rhag fy ofn i yr ymofidi di. Y nef fydd dyst it na welaist gyfaill cywirach nag y cei di fi, tra y mynno Duw iti fod felly. Yn wir, pe buaswn yn nechreu fy ieuencid, buaswn gywir i Bryderi a chywir i tithau, ac na fydded un ofn arnat,” ebe ef. “ Yn wir, ti a gei y cyfeillgarwch a fynni gennyf fi, hyd eithaf fy

*Fel yr
ofnodd
Cicfa.*

ngallu, tra y gwelo Duw yn dda i mi fod yn y trallod hwn, a'r gofal."

"Duw a dalo it," ebe hi, "gwn y gwnai fel y dywedi." A llawen ac eofn fu y forwyn o achos hynny.

"Ie, enaid," ebe Manawyddan, "nid oes cyfle i ni drigo yma,—ein cŵn a gollasom, ac ni allwn gael ymborth. Awn tua Lloegr, hawsaf yw i ni gael ymborth yno."

"Yn llawen, arglwydd," ebe hi, "ni a wnawn hynny."

A cherddasant ynghyd i Loegr.

"Arglwydd," ebe hi, "pa greffit a gymeri? Cymer un lanwaith."

"Ni chymeraf fi," ebe ef, "namyn cryddiaeth, fel y gwnaethum gynt."

"Arglwydd," ebe hi, "nid gweddus honno i wŵr mor fedrus ac urddasol a thydi."

"Honno a gymeraf," ebe ef.

Dechreu ei gelfyddyd a wnaeth, a threfnu ei waith o'r cordwal tecaf a gai yn y dref. Ac fel y dechreusant yn y lle arall, dechreuodd roddi byclau euraidd ar yr esgidiau, fel mai ofer a gwael oedd gwaith holl gryddion y dref wrth ei eiddo ef. A thra y ceffid esgid neu hosan ganddo ef, ni phrynnid gan eraill ddim. Blwyddyn a dreuliodd ef felly, hyd nes oedd y cryddion yn dal cenfigen; ac ymgynghorasant yn ei erbyn. Ac yna y daeth rhybuddiau iddo fod y cryddion wedi penderfynu ei ladd.

"Arglwydd," ebe Cicfa, "pam y goddefir hyn gan y taeogion?"

"Nage," ebe yntau, "ni a awn i Ddyfed."

I Ddyfed yr aethant. A hyn a wnaeth Manawyddan pan gychwynnodd tua Dyfed,—dwyn baich o wenith. Ac aeth i Arberth, ac yno y cyfaneddodd:

*Fel yr
addfedodd
gwenith
Man-
awyddan.*

Ac nid oedd dim yn hyfrytach iddo na gweled Arberth, a'r diriogaeth y buasai yn hela, ef a Phryderi, a Rhianon gyda hwynt. Dechreuodd gynefino â'r lle, a physgota a hela llydnod ar eu gwâl.

Wedi hynny dechreuodd lafurio'r tir, a hau maes bychan, ac ail faes, a thrydydd faes. Ac wele y gwenith goreu yn y byd yn codi, a'i dri maes yn llwyddo yn un dwf, fel na welsai ddyn wenith tecach nag ef.

Treulio amseroedd y flwyddyn a wnaeth, ac wele y cynhaeaf yn dyfod. Aeth i edrych un o'i feysydd, ac wele yr oedd yn addfed. "Mi a fynnaf fedi hwn yfory," ebe ef. Daeth drachefn y nos honno i Arberth. Y bore glas drannoeth, daeth i fynnu medi ei faes,—pan ddaeth, nid oedd yno namyn y gwelltyn yn llwm. Yr oedd pob tywysen wedi ei thorri oddi ar y gwelltyn,—y tywysennau wedi eu dwyn ymaith i gyd, a'r gwellt wedi eu gadael yno yn llwm. Ac efe a ryfeddodd yn fawr.

Aeth i edrych y maes arall, ac yr oedd hwnnw yn addfed. "Yn wir," ebe ef, "mi a fynnaf fedi hwn yfory." A drannoeth daeth ar feddwl medi hwnnw; ond pan ddaeth, nid oedd yno ddim namyn y gwelltyn llwm.

"Och fi," ebe ef, "pwy sydd yn gorffen fy nifa i? Mi a'i gwn,—y neb ddechreuodd fy nifa sydd yn gorffen, ac yn difa y wlad gyda mi."

Aeth i edrych ei drydydd maes; a phan ddaeth, ni welsai neb wenith tecach, a hwnnw yn addfed.

"Gwae fi," ebe ef, "oni wyliaf fi heno. A'r neb a ddug yr yd arall a ddaw i ddwyn hwn,—a mi a wybyddaf beth yw."

A chymryd ei arfau a wnaeth, a dechreu gwylid y maes. A mynegodd hynny i Cicfa.

"Ie," ebe hi, "pa beth sydd yn dy fryd?"

“ Mi a wyliaf y maes heno,” ebe ef.

I wyllo'r maes yr aeth. Ac fel yr oedd yn gwyllo'r maes hanner nos, dyma y twrf mwyaf yn y byd. Edrychodd yntau, a gwelodd dorf ddi-rif o lygod,—nid oedd gyfrif na mesur arnynt. Ac ni wyddai beth ydoedd nes oedd y llygod wedi ymsaethu i'r maes, a phob un yn dringo ar hyd y gwelltyn, gan ei dynnu i lawr gyda hi, ac yn torri y dywysen, ac yn ymsaethu a'r dywysen ymaith, a gadael y gwelltyn yno. Ac ni wyddai ef fod un gwelltyn yno na bai lygoden am bob un, a chymerent eu hynt ymaith a'r tywysennau ganddynt.

*Fel y
daliwyd
lleidr.*

Ac yna rhwng digter a llid, rhedodd ymhlith y llygod ; ond ni allai ddal ei olwg ar yr un ohonynt, mwy nag ar wybed neu adar yr awyr, eithr un a welai mor drom fel mai prin y medrai gerdded. Cerddodd ar ol honno, a'i dal a wnaeth, a'i doddi yn ei faneg. Rhwymodd enau y faneg â llinyn, ac aeth a hi gydag ef, ac aeth i'r llys. Daeth i'r ystafell yr oedd Cicfa ynddi. Cynheuodd dân, a rhoddodd y faneg wrth linyn ar yr hoel.

“ Beth sydd yna, arglwydd ? ” ebe Cicfa.

“ Lleidr,” ebe yntau, “ a gefais yn lladrata oddi arnaf.”

“ Pa ryw leidr, arglwydd, a allet ti ei ddodi yn dy faneg ? ” ebe hi.

“ Dyma'r holl hanes,” ebe yntau ; a mynegodd iddi fel y difethwyd ac y difwynwyd ei feysydd, ac fel y daeth y llygod i'w faes diweddaf yn ei wydd, “ ac un ohonynt oedd amdrom, a daliais innau hi,—honno sydd yn fy maneg, a mi a'i crogaf hi yfory. Ac myn fy nghyffes i Dduw,” ebai ef, “ pe daliaswn yr oll mi a'u crogaswn.”

*Fel y bu
erfyn am
fywyd
llygoden.*

“ Arglwydd,” ebe hi, “ nid rhyfedd oedd hynny. Eto, nid dymunol gweled gŵr gydag urddas a bonedd fel tydi, yn crogi rhyw bryf fel hon. A phe gwnelet yn iawn, nid ymyrret â’r pryf, ond ei ollwng ymaith.”

“ Drwg i mi,” ebe ef, “ oni chrogaswn hwy oll pe cawswn hwy. Ac a gefais, mi a’i crofaf.”

“ Ie, arglwydd,” ebe hi, “ nid oes achos i mi fod yn nodded i’r pryf yma, namyn rhwystro anurddas iti. A gwna dithau dy ewyllys, arglwydd.”

“ Pe gwypwn innau am un rheswm y dylet fod yn nodded iddo, mi a wnawn dy gyngor ; a chan nas gwn, arglwyddes, meddwl yw gennyf ei ddifetha.”

“ Gwna dithau yn llawen,” ebe hi.

Yna aeth i Orsedd Arberth, a’r llygoden gydag ef. A gosododd ddwy fforch yn y lle uchaf yn yr orsedd.

Fel yr erfyniodd ysgolhaig. Ac fel yr oedd felly, dyma ysgolhaig yn dyfod ato, a hen ddillad treuliedig tlawd am dano. Ac yr oedd saith mlynedd er pan welodd ddyn nac anifail cyn hynny, ac eithrio’r pedwar fu gyda’i gilydd nes y collwyd y ddau.

“ Arglwydd,” ebe’r ysgolhaig, “ dydd da iti.”

“ Duw a roddo dda i ti,” ebe yntau, “ a chroesaw iti. O ba le y deui di, yr ysgolhaig ? ”

“ Deuaf o Loegr, arglwydd, o ganu. A phaham y gofynni, arglwydd ? ” ebe ef.

“ Am na welais,” ebe ef, “ ers saith mlynedd, undyn, ond pedwar dyn detholedig, a thithau yr awr hon.”

“ Ie, arglwydd,” ebe ef, “ myned trwy y wlad hon yr wyf finnau yr awrhon tua’ m gwlad fy hun. A pha ryw waith wyt yn wneud, arglwydd ? ”

“ Crogi lleidr, a gefais yn lladrata oddi arnaf,” ebe ef.

“ Pa ryw leidr, arglwydd ? ” ebe’r ysgolhaig. “ Pryf a welaf yn dy law di fel llygoden, a drwg y gwedda i

ŵr mor urddasol a thydi gyffwrdd â phryf fel hwnnw,—gollwng ef ymaith.”

“Na ollyngaf, yn wir,” ebe yntau. “Yn lladrata oddiarnaf y cefais i ef, a chyfraith lleidr a wnaf finnau âg ef,—ei grogi.”

“Arglwydd,” ebe yntau, “rhag gweled gŵr mor urddasol a thydi wrth waith felly, punt a gefais i o gardota, mi a’i rhoddaf i ti,—a gollwng y pryf hwnnw ymaith.”

“Na ollyngaf, yn wir, ac nis gwerthaf.”

“Gwna dithau, arglwydd,” ebe ef, “nid yw o bwys gennyf, ond rhag gweled gŵr mor urddasol a thydi yn cyffwrdd â phryf felly.” Ac aeth yr ysgolhaig ymaith.

Ac fel yr oedd yn rhoddi y ffon yn groes ar y fforch, wele offeiriad yn dod tuag ato ar farch yn drefnus.

“Arglwydd, dydd da iti,” ebe ef.

“Duw a roddo dda iti,” ebe Man- *Fel yr*
awyddan, “a’th fendith dod i minnau.” *erfyniodd*

“Bendith Duw i ti. A pha beth wyt yn *offeiriad.*
ei wneuthur, arglwydd?” ebe ef.

“Crogi lleidr a gefais yn lladrata oddiarnaf,” ebe ef.

“Pa ryw leidr yw hwnnw, arglwydd?” ebe yntau.

“Pryf,” ebe ef, “ar lun llygoden. A lladrata a wnaeth oddiarnaf, a dihenydd lleidr a wnaf finnau arno.”

“Arglwydd,” ebe yntau, “rhag dy weled yn cyffwrdd â’r pryf hwnnw, mi a’i prynnaf, gollwng ef.”

“Myn fy nghyffes i Dduw, ei werthu, na’i ollwng, nis gwnaf i.”

“Gwir, arglwydd, nid yw ef yn werth dim; eithr rhag dy weled di yn ymhalogi gyda’r pryf hwnnw, mi a roddaf i ti deirpunt,—a gollwng ef ymaith.”

“Na fynnaf, ar fy ngwir,” ebe yntau, “un pris am dano, namyn yr un a haedda,—ei grogi.”

“Yn llawen, arglwydd, gwna dy fympwy.”

Ac aeth yr offeiriad ymaith.

A'r peth wnaeth yntau oedd rhoddi y llinyn yn fagl am wddf y llygoden, ac fel yr oedd yn ei chodi, gwelai was esgob a'i nwyddau a'i niferoedd, a'r esgob ei hun yn dyfod tuag ato. Gohiriodd yntau y gwaith.

"Arglwydd esgob," ebe ef, "dy fendith."

"Duw a roddo ei fendith i ti," ebe ef, "pa ryw waith wyt yn ei wneuthur?"

"Crogi lleidr a gefais yn lladrata oddiarnaf," ebe ef.

"Onid llygoden," ebe yntau, "a welaf i yn dy law di?"

Fel yr erfyniodd esgob. "Ie," ebe yntau, "a lleidr a fu hi arnaf fi."

"Ie," ebe yntau, "gan i mi ddyfod pan ar ladd y pryf yna, mi a'i prynnaf gennyf, —mi a roddaf seithpunt i ti am dano. A rhag gweled gŵr mor urddasol a thi yn lladd pryf mor ddielw a hwnyna, gollwng ef ymaith, a chei yr arian."

"Na ollyngaf, myn fy nghrefydd," ebe yntau.

"Gan nas gollyngi am hynny, mi a roddaf bedair punt ar hugain o arian parod, a gollwng ef."

"Yn wir, yn wir, myn fy nghyffes i Dduw, ni ollyngaf ef er cymaint arall," ebe yntau.

"Gan nas gollyngi am hynny," ebe ef, "mi a roddaf iti a weli o feirch yn y maes hwn, a'r nwyddau, a'r saith gwas, a'r saith march y maent arnynt."

"Na fynnaf er fy nghrefydd," ebe yntau.

"Gan na fynni hynny, gwna er y pris a fynni."

"Gwnaf," ebe yntau,—"rhyddhau Rhianon a Phryderi."

"Ti a gei hynny."

"Nid yw hynny ddigon."

"Beth a fynni, ynte?"

"Gwared yr hud a'r lledrith oddiar saith gantref Dyfed."

“Ti a gei hynny hefyd, a gollwng y llygoden.”

“Na ollyngaf, yn wir, gwybod a fynnaf pwy yw hi,—y llygoden.”

“Fy ngwraig i yw hi, a phe ni buasai, ni cheisiwn ei rhyddhau.”

“I ba beth y daeth hi ataf fi?”

“I herwa. Myfi yw Llwyd fab Cilcoed. A mi a ddodais yr hud ar saith gantref Dyfed. Ac i ddial Gwawl, fab Clud, am fy mod yn gyfaill iddo, y rhoddais i yr hud. Ac ar Pryderi y dielais i am y chware broch yng nghod â Gwawl, fab Clud, a wnaeth Pwyll Pen Annwn, yn Llys Efeydd Hen, a hynny yn annoeth. Ac wedi gwybod dy fod dithau yn cyfaneddu y wlad, daeth fy nheulu ataf innau, i ofyn i mi eu rhithio yn llygod i ddifa dy yd di. Y nos gyntaf daeth fy nheulu eu hunain, a'r ail nos y daethant hefyd, gan ddifa dy ddau faes gwenith. A'r drydedd nos daeth fy ngwraig a gwagedd y llys ataf gan ofyn i mi eu rhithio, a rhithiais innau hwynt. Beichiog a oedd hi, ac oni bai hynny, ni fuaset yn ei goddiweddyd. Mi a roddaf Pryderi a Rhianon iti, a gwardaf yr hud a'r lledrith oddi ar Ddyfed. Yr wyf wedi dweyd wrthyt pwy yw, gollwng hi weithion.”

*Fel yr
arbedwyd
llygoden.*

“Na ollyngaf, yn wir,” ebe ef.

“Beth a fynni dithau?” ebe ef.

“Hyn,” ebe ef, “a fynnaf,—na fo hud fyth ar saith gantref Dyfed, ac nas dodder.”

“Ti a gei hynny,” ebe ef, “a gollwng hi.”

“Na ollyngaf, myn fy nghred,” ebe yntau.

“Beth a fynni dithau bellach?” ebe ef.

“Dyma it beth a fynnaf,” ebe ef, “na bo ymddial ar Pryderi na Rhianon, na minnau byth am hyn.”

“Hynny oll a geffi; ac yn wir, da y gofynaist,” ebe ef, “ar dy ben di y deuai'r holl ofid.”

“Ie,” ebe yntau, “rhag hynny y gofynais ef.”

“Rhyddha weithion fy ngwraig im.”

“Na ryddhaf, yn wir, hyd oni welwyf Bryderi a Rhianon yn rhydd gyda mi.”

“Wel di, dyma hwy yn dyfod,” ebe ef.

Ac ar hynny dyma Pryderi a Rhianon yn dod. Cyfodi i’w cyfarfod wnaeth yntau i’w croesawu, ac eisteddasant ynghyd.

Fel y daeth “Ha, wŕ da, rhyddha fy ngwraig im
Pryderi a weithion,” ebe’r esgob. “Cefaist yr oll
Rhianon a ofynaist.”

yn ol. “Gollyngaf yn llawen,” ebe ef.

Yna y gollyngodd efe hi. Tarawodd yntau hi â hud-lath, a dad-rithiwyd hi yn wraig ieuanc decaf a welodd neb.

“Edrych o’th gylch ar y wlad,” ebe ef, “a thi a weli yr holl aneddau fel y buont oreu.”


Yna cyfodi a wnaeth yntau, ac edrych. A phan edrychodd, ef a welai yr holl wlad yn gyfannedd, ac yn llawn o ddiadelloedd a phreswylfeydd.

“Pa waith fu Pryderi a Rhianon yn ei wneud?” ebe ef.

“Yr oedd gyrdd porth fy llys i am wddf Pryderi; a choleri’r asynod, pan ddeuent o gywain gwair, am wddf Rhianon,—ac felly y bu eu carchar.”

Ac oherwydd hynny y gelwid yr hanes hon yn Fabinogi “Mynweir a Mynordd.”

Ac felly terfyna y gainc hon yma o’r Mabinogi.



FEL Y TARAWYD LLEW LLAW GYFFES. t.d. 89.

Math Fab Mathonwy.



HON YW Y BEDWAREDD GAINC O'R
MABINOGLI.

MATH fab Mathonwy oedd arglwydd ar Wynedd, a Phryderi fab Pwyll oedd arglwydd ar un cantref ar hugain yn y Deheu, sef oedd y rhai hynny,—saith gantref Dyfed, a saith gantref Morgannwg, pedwar cantref Ceredigion, a thri Ystrad Tywi. Ac yn yr amser hwnnw, Math fab Mathonwy ni fyddai byw namyn tra byddai morwyn yn gweini arno, onid cynnwrf rhyfel a'i llesteiriai.

A'r forwyn oedd gydag ef oedd Goewin ferch Pebin, o Ddôl Pebin yn Arfon,—a honno oedd y forwyn decaf yn ei hoes, am a wyddid yno. Ac yng Nghaer Dathyl, yn Arfon, yr oedd Math yn wastadol. Ac ni allai gylchu ei wlad; namyn Gilfaethwy fab Don, ac Efeydd fab Don, ei neiaint feibion ei chwaer, a'r teulu gyda hwy gylchu y wlad drosto. Ac yr oedd Goewin gyda Math yn wastadol, ac yntau, Gilfaethwy fab Don, a ddodes ei fryd ar y forwyn, a'i charu hyd na wyddai beth a wnai am dani. Ac am hynny, wele, ei liw a'i wedd a'i ansawdd yn adfeilio o'i chariad, hyd nad oedd hawdd ei adnabod.

*Fel y
pruddhaodd
Gilfaethwy
fab Don.*

Un diwrnod, sylwodd Gwydion, ei frawd, yn graff arno.

“Ha was,” ebe ef, “beth a ddigwyddodd i ti?”

“Paham?” ebe yntau. “Beth a weli arnaf?”

“Gwelaf golli o honot dy bryd a’th liw,—a pha beth a ddigwyddodd iti?”

“Arglwydd frawd,” ebe ef, “ni ffrwytha i mi addef i neb yr hyn a ddigwyddodd i mi.”

“Beth yw, frawd?” ebe yntau.

“Ti a wyddost,” ebe ef, “gynneddf Math fab Mathonwy,—pa sibrawd bynnag, er bychaned a fo rhwng dynion, os cyfarfyddo y gwynt âg ef, efe a’i gwybydd.”

“Ie,” ebe Gwydion, “taw di bellach. Mi a wn dy feddwl di,—caru Goewin yr wyt ti.”

A phan wybu Gilfaethwy wybod o’i frawd ei feddwl, dododd ochenaid drymaf yn y byd.

“Taw, enaid, a’th ochencidio,” ebe ef, “nid felly y gorfyddir. Minnau a baraf, canys ni ellir heb hynny, gynnull Gwynedd, a Phowys a’r Deheubarth, i geisio y forwyn. A bydd lawen di, a mi a’i paraf iti.”

Wedi hynny, aethant at Fath fab Mathonwy.

“Arglwydd,” ebe Gwydion, “mi a glywais ddyfod i’r Deheu ryw bryfed na fu yn yr ynys hon erioed.”

“Beth yw eu henw hwy?” ebe ef.

“Hobeu, arglwydd.”

“Pa fath anifeiliaid yw y rhai hynny?”

“Anifeiliaid bychain, gwell eu cig na chig eidion. Bychain ydynt, ac y mae arnynt fwy nag un enw,—moch y gelwir hwy weithiau.”

“Pwy piau hwy?”

“Pryderi fab Pwyll. Anfonwyd hwy iddo o Annwn, gan Arawn, brenin Annwn.” (Ac yr ydym eto yn cadw o’r enw hwnnw hanner hwch, hanner hob).

“Ie,” ebe ef, “pa fodd y ceir hwy ganddo?”

“Mi a af yn un o ddeuddeg, arglwydd, yn rhith beirdd, i erchi y moch.”

“ Fe eill eich nacau,” ebe yntau.

“ Nid drwg im fyned, arglwydd,” ebe ef, “ ni ddeuaf oddiyno heb y moch.”

*Fel y daeth
y moch i
Wynedd.*

“ Cerdda rhagot, yn llawen,” ebe Math.
Ac aeth ef a Gilfaethwy a deg o wŷr gyda
hwynt hyd y fan a elwir yn awr Rhuddlan

Teifi, yng Ngheredigion, lle yr oedd llys Pryderi.
Aethant i fewn yn rhith beirdd, a llawen fuwyd wrthynt.
A'r nos honno eisteddai Gwydion wrth ochr Pryderi.

“ Ie,” ebe Pryderi, “ da fuasai gennym gael chwedl
gan rai o'r gwŷr ieuainc acw.”

“ Moes yw gennym ni, arglwydd,” ebe Gwydion, “ y
nos gyntaf y deler at ŵr mawr, i'r pencerdd ddywedyd.
A mi a ddywedaf chwedl yn llawen.”

A'r goreu yn y byd am ddweyd chwedl oedd Gwydion.
A'r nos honno diddanodd y llys âg ymddiddanion digrif
a chwedlau nes oedd hoff gan bawb yn y llys, a diddan
oedd gan Bryderi ymddiddan âg ef. Ac wedi hynny
gofynnodd Gwydion,—

“ Arglwydd, a ofyn neb fy neges gennyt yn well na
myfi fy hun ? ”

“ Na wna,” ebe yntau, “ tafod rwydd yw dy un di.”

“ Dyma fy neges innau, arglwydd,” ebe ef. “ Erfyn
gennyt yr anifeiliaid anfonwyd iti o Annwn.”

“ Ie,” ebe yntau, “ hawddaf yn y byd fuasai hynny
oni bai fod amod rhyngof â'm gwlad am danynt, sef yw
hynny,—nad elo y moch oddi wrthyf oni hiliont eu rhif
ddwywaith yn y wlad.”

“ Arglwydd,” ebe yntau, “ gallaf dy ryddhau o'r
amod yna. Ac fel hyn y gallaf. Na ddyro y moch im'
heno, ac na naca fi ohonynt, ac yfory danghosaf gyfnewid
i ti am danynt.”

A'r nos honno aeth ef a'i gydymdeithion i'r llety i
gymryd cyngor.

“ Ha wŷr,” ebe ef, “ ni chawn ni y moch er eu herchi.”

“ Wel,” ebe hwythau, “ drwy ba fedr y ceir hwy ? ”

“ Mi a baraf eu cael,” ebe Gwydion.

Yna yr aeth ef at ei gelfyddydau, a dechreuodd ddangos ei hud, a hudodd ddeuddeg march rhyfel ; a deuddeg milgi bronwyn du, pob un ohonynt a deuddeg torch a deuddeg cadwyn wrthynt, a’r neb ar a’u gwelai ni wyddent na baent aur ; a deuddeg cyfrwy ar y meirch, ac ymhob lle y dylai fod haearn arnynt yr oedd aur i gyd ; a ffrwynau o’r un defnydd. Ac aeth a’r cŵn a’r meirch at Pryderi.

“ Dydd da iti, arglwydd,” ebe ef.

“ Duw a roddo dda iti,” ebe yntau, “ a chroesaw iti.”

“ Arglwydd,” ebe ef, “ dyma ryddid i ti am y gair a ddywedaist neithiwr am y moch,—na roddet ac na werthet hwy. Ti a elli eu cyfnewid er a fo gwell. Minnau a roddaf iti y deuddeg march yma fel y maent yn gywir, a’u cyfrwyau a’u ffrwynau ; a’r deuddeg milgi, a’u coleri a’u cadwynau fel y gweli ; a’r deuddeg tarian euraidd a weli di acw.”

Y rhai hynny a rithiasai ef o fwyd llyffant.

“ Ie,” ebe ef, “ ni a gymerwn gyngor.”

Ac yn y cyngor penderfynwyd rhoddi’r moch i Gwydion, a chymryd y meirch a’r cŵn a’r tariannau ganddo yntau. Yna y cymerasant hwythau gennad, a dechreusant gerdded â’r moch.

“ Ha, gyd-deithwyr,” ebe Gwydion, “ rhaid i ni gerdded yn brysur, ni phery yr hud ond diwrnod.”

A’r nos honno y cerddasant hyd yng ngwarthaf Ceredigion,—y lle a elwir eto o achos hynny Mochdref. Trannoeth cymerasant eu hynt dros Elenydd, a’r nos honno y buont rhwng Ceri ac Arwystli, yn y dref a elwir hefyd am hynny Mochdref. Ac oddiyno cerddasant rhagddynt, a’r nos honno daethant i gwmwd ym

Mhowys, a elwir ar ol hynny Mochnant. Ac yno y buont y nos honno. Ac oddi yno cerddasant hyd yng nghantref Rhos, ac yno y buont y nos honno mewn tref a elwir eto Mochdref.

“Ha wŷr,” ebe Gwydion, “ni a gyrchwn gadernid Gwynedd â’r anifeiliaid hyn. Mae un yn ymfyddino yn ein hol.” A chyrchasant y dref uchaf yn Arllechwedd. Ac yno y gwnaethant greu i’r moch, ac ar ol hynny y galwyd y dref Creuwyrion. Ac wedi gwneuthur y creu i’r moch, aethant i Gaer Dathl, at Fath fab Mathonwy. A phan ddaethant yno, yr oeddis yn cynnull y wlad.

“Pa newyddion sydd yma?” ebe Gwydion.

“Cynnull y mae Pryderi,” ebe hwy, “ar eich hol chwi un cantref ar hugain. Rhyfedd i chwi fod mor hir yn cerdded.”

“Pa le mae’r anifeiliaid yr aethoch yn eu cylch?” ebe Math.

“Y maent wedi gwneuthur creu iddynt yn y cantref arall isod,” ebe Gwydion.

Ar hynny, clywent yr utgyrn a’r ymgynnull yn y wlad. Yna gwisgasant hwythau eu harfau ac aethant hyd ym Mhennardd, yn Arfon. A’r nos honno dychwelodd Gwydion, fab Don, a Chilfaethwy ei frawd, i Gaer Dathl, at Goewin. A gwnaeth Gwydion i Goewin briodi Gilfaethwy y neson honno.

Pan welsant y dydd drannoeth, aethant i’r lle yr oedd Math fab Mathonwy a’i lu. Ac yr oedd y gwŷr hynny yn myned i gymryd cyngor pa du yr arhosent Pryderi a gwŷr y Deheu; ac i’r cyngor yr aethant hwythau. Ac yn y cyngor penderfynasant aros yng nghadernid Gwynedd, yn Arfon. Ac ynghanol y ddwy faenor yr arosasant,—maenor Pennar, a maenor Coed Alun. Pryderi a ddaeth i’w herbyn hwy, ac yno y bu brwydr, a lladdwyd nifer fawr o bob ochr, a bu raid i wŷr y Deheu

encilio. Ac enciliasant hyd y lle a elwir eto Nantcoll. Hyd yno yr ymlidiwyd hwy, lle bu lladdfa ddifedur ei maint. Yna y ciliasant hyd y lle a elwir Dolbenmaen, yno y rhoddasant eu harfau i lawr gan geisio heddwch, a gwystl a roddodd Pryderi i gadw'r heddwch, sef Gwrgi Gwastra yn un o bedwar ar hugain o feibion gwŷr-da.

Yna cerddasant mewn heddwch hyd y Traeth Mawr, ond wedi cyrraedd Melenryd, ni ellid atal y gwŷr traed ymsaethu. Gyrrodd Pryderi genhadon at
Fel y bu Fath fab Mathonwy, i ofyn iddo wahardd
farw ei wŷr saethu, a gadael y mater rhyngddo
Pryderi. ef a Gwydion fab Don,—canys ef achosodd
 yr ymladd. Aeth y cenhadau at Fath.

“Ie,” ebe Math, “yn wir, os da gan Gwydion fab Don hyn, mi a’i caniataf yn llawen. Ni chymhellaf finnau neb fyned i ymladd heb wneuthur o honom ninnau ein gallu.”

“Yn wir,” ebe’r cenhadau, “teg, medd Pryderi, yw i’r gŵr barodd hyn o gam iddo ddodi ei gorff yn erbyn ei gorff yntau, a gadael ei deulu yn segur.”

“Yn wir,” ebe Gwydion, “ni archaf i wŷr Gwynedd ymladd droswyf fi, a minnau fy hun yn cael ymladd â Phryderi,—mi a ddodaf fy nghorff yn erbyn ei gorff yntau yn llawen.”

Mynegwyd hynny i Pryderi.

“Ie,” ebe Pryderi, “ni archaf finnau neb ofyn fy iawn namyn fy hun.”

Y gwŷr hynny a neilltuwyd, a dechreuodd y ddau wisgo eu harfau. Ac ymladd a wnaethant. Ac o nerth grym, a llid, a hud, a lledrith Gwydion, lladdwyd Pryderi. Ac ym Maen Tyfiawg, uwch Melenryd, y claddwyd ef, ac yno y mae ei fedd.

Gwŷr y Deheu a gerddasant yn drist eu gwedd tua’u gwlad, ac nid rhyfedd hynny,—eu harglwydd gollasant,

a llawer o'u goreu-wŷr, a'u meirch a'u harfau gan mwyaf. Ond yn llawen a gorfoleddus y dychwelodd gwŷr Gwynedd.

"Arglwydd," ebe Gwydion wrth Fath, "onid yw iawn i ni ollwng i wŷr y Deheu eu gwystlon a wystlasant i ni er tangnefedd, ac ni ddylem eu carcharu?"

"Rhyddhaer hwy," ebe Math.

A'r gwas hwnnw, a'r gwystlon oedd gydag ef, a ollyngwyd ar ol gwŷr y Deheu.

Yntau Math a aeth tua Chaer Dathyl.

Gilfaethwy fab Don, a'r gwŷr fu gydag ef, gyrchasant i gylchu Gwynedd yn ol eu harfer, a heb fyned i'r llys.

Yntau Math a gyrchodd ei ystafell, ac a barodd i Goewin weini arno fel cynt.

"Arglwydd," ebe Goewin, "cais forwyn i weini arnat, gwraig wyf fi."

"Pa ystyr yw hynny?" ebe ef.

"Dy neiaint, arglwydd, feibion dy chwaer Gwydion ab Don a Gilfaethwy ab Don, a ddaethant; a phriodasant fi â Gilfaethwy drwy drais."

"Mynnaf iawn ganddynt," ebe Math.

*Fel y
cosbwyd
Gwydion
ab Don.*

Ac yn hynny ni ddaethant hwy yng nghyfyl y llys, ond trigo o gylch y wlad a wnaethant hyd nes y gwaharddwyd rhoddi bwyd a diod iddynt. Ni ddaethant yn ei gyfyl ef i ddechreu; ac yna daethant hwy ato ef.

"Arglwydd," ebe hwynt, "dydd da it."

"Ie," ebe yntau, "ai i wneuthur iawn i mi y daethoch chi?"

"Arglwydd, i'th ewyllys yr ydym."

"Pe fy ewyllys, ni chollwn a gollais o wŷr ac arfau, ni fuasai cywilydd i mi o briodi'r forwyn drwy drais yn fy llys, heb son am angau Pryderi. A chan y daethoch i'm hewyllys, mi a ddechreuaf bennyd arnoch."

Ac yna y cymerth ei hudlath ac y tarawodd Gilfaethwy nes oedd yn garw. A mynnai y llall ddianc, ond nis gallai; tarawodd Math ef â'r un hudlath nes oedd yntau hefyd yn garw.

“Yn rhwymedigaeth i chwi, mi a wna i chwi gerdded ynghyd, ac yn un anian â'r gwylltflod yr ydych yn eu rhith. A blwyddyn i heddyw dowch yma ataf fi.”

Ymhen y flwyddyn i'r undydd, clywai sŵn dan bared yr ystafell, a chyfarthfa cŵn y llys am ben y sŵn.

“Edrych,” ebe yntau, “beth sydd allan.”

“Arglwydd,” ebe un, “mi a edrychais, y mae yno ddau garw.”

Ac ar hynny cyfodi wnaeth yntau, a dyfod allan. A gwelai'r ddau garw. Cododd yr hud oddiarnynt.

“Bydd di faedd coed eleni,” ebe fe wrth bob un ohonynt. Ac ar hynny eu taro â'r hudlath a wnaeth. “A'r anian a fo i'r moch coed, bydded i chwithau. A blwyddyn i heddyw byddwch yma dan y pared.”

Ymhen y flwyddyn clywent gyfarthfa cŵn dan bared yr ystafell, a'r llys yn ymgynnull at ei gilydd. Ar hynny, cyfodi a wnaeth yntau, Math, a dyfod allan. A phan ddaeth allan, gwelodd ddau fochyn coed.

“Byddwch fleiddiaid eleni,” ebe ef.

Ac ar hynny eu taro â'r hudlath a wnaeth.

“Ac anian yr anifeiliaid yr ydych yn eu rhith, boed i chwithau. A byddwch yma flwyddyn i'r dydd heddyw dan y pared hwn.”

Yr undydd ymhen y flwyddyn, clywai ymgynnull a chyfarthfa cŵn dan bared yr ystafell. Cododd yntau allan, a gwelai ddau flaidd. Ac ar hynny tarawodd y ddau â'r hudlath hyd nes oeddynt yn eu cnawd eu hunain.

“Ha wŷr,” ebe ef, “os gwnaethoch gam i mi, digon y buoch dan eich pennyd, a chywilydd mawr a gawsoch.

Perwch enaint i'r gwŷr," ebe ef, " a golchi eu pennau a'u cyweirio."

A hynny a barwyd iddynt. Ac wedi ymgyweirio ohonynt, ato ef y cyrchasant.

" Ha wŷr," ebe ef, " tangnefedd a gawsoch, a chared-igrwydd a gewch."

" Ha wŷr," ebe Math wrth Wydion fab Don a Gilfaethwy fab Don, " a roddwch im gyngor pa forwyn a geisiaf i weini i mi yn lle Goewin ? "

" Arglwydd," ebe Gwydion fab Don, " hawdd yw dy gynghori,—Aranrod, ferch Don, dy nith, ferch dy chwaer."

A honno a gyrchwyd ato. Ond yr oedd Aranrod yn briod yn ddirgel, ac yr oedd iddi ddau fab. Trwy hud Math, daeth ei mab a'i baban newydd eni i'r llys. Mab brasfelyn mawr oedd y mab, ond cymerth Gwydion y baban cyn i neb weled yr ail olwg arno, ac a droes len o bali yn ei gylch, ac a'i cuddiodd ef. A'r lle y cuddiodd ef oedd mewn llawr cist îs traed ei wely.

" Ie," ebe Math fab Mathonwy, wrth y mab brasfelyn, " mi a baraf fedyddio hwn, sef enw a baraf arno,—Dylan."

Bedyddio y mab a wnaethpwyd ; ac fel y bedyddiwyd ef y môr a gyrchodd. A chydag y daeth i'r môr, anian y môr a gafodd, a chystal y nofiai a'r pysg goreu yn y môr. Ac oherwydd hynny y gelwid ef Dylan Eilton. Ni thorres ton dano erioed. A'r ergyd y daeth ei angau o honi a fwriodd Gofannon, ei ewythr, a honno a fu " drydedd anfad ergyd."

Fel yr oedd Gwydion un diwrnod yn ei wely, ac yn deffroi, ef a glywai lef yn y gist îs ei draed ; ac er nad oedd yn uchel, cyfuwch oedd ag y clywai

Fel y gwelwyd Llew Llaw Gyffes gyntaf. ef. Sef a wnaeth yntau cyfodi yn gyflym ac agor y gist, ac fel yr agorai hi, ef a welai fab bychan yn rhwyfo ei freichiau o blyg y llen ac yn ei gwasgaru. Ac ef a gymerodd y mab rhwng ei ddwyllaw, ac a gyrchodd âg ef i dref, lle y gwyddai fod gwraig a bronau ganddi, a chytunodd â'r wraig feithrin y mab. A'r mab a fagwyd y flwyddyn honno; ac ymhen y flwyddyn rhyfedd oedd ganddynt ei fod gymaint a phe bai ddwyflwydd. A'r ail flwyddyn mab mawr oedd, ac yn gallu cerdded i'r llys ei hun. Yntau ei hun, Gwydion, wedi dyfod i'r llys a sylwodd arno, a'r mab a ymgynefinodd âg ef, ac a'i carodd yn fwy nag undyn. Yna y magwyd y mab yn y llys hyd oni fu bedair blwydd. A rhyfedd oedd i fab wyth mlwydd fod gymaint ag ef.

Un diwrnod efe a gerddodd yn ol Gwydion i orymdeithio allan. Sef a wnaeth Gwydion cyrchu Caer Aranrod, a'r mab gydag ef. Wedi ei ddyfod i'r llys, cyfodi a wnaeth Aranrod i'w gyfarfod, a'i groesawu a chyfarch gwell iddo.

“Duw a roddo dda it,” ebe efe.

“Pa fab sydd o'th ol di?” ebe hi.

“Y mab hwn, mab i ti yw,” ebe ef.

“Ha wr, pam y doi arnat ti fy nghywilydd i,—a dilyn fy nghywilydd, a'i gadw cyhyd a hyn?”

“Oni bydd arnat ti gywilydd mwy na meithrin o honwyf fi fab cystal a hwn, bychan o beth fydd dy gywilydd.”

“Pwy enw fedd dy fab di?” ebe hi.

“Yn wir,” ebe ef, “nid oes arno un enw eto.”

“Ie,” ebe hithau, “mi a dyngaf dynged iddo na chaffo ef enw oni chaffo gennyf fi.”

“Myn fy nghyffes,” ebe ef, “gwraig ddiriaid wyt, a'r mab a gaiff enw, er fod hynny'n ddrwg gennyf ti.”

Ac ar hynny cerdded ymaith drwy ei lid a wnaeth, a chyrchu Caer Dathyl. Ac yno y bu y nos honno. A thrannoeth cyfodi a wnaeth, a chymryd y mab gydag ef, a myned i orymdaith gyda glan y weilgi, rhwng hynny ac Aber Menai. A phan welodd hesg a môr-wiail, rhithio llongau a wnaeth. Ac o'r gwymon a'r hesg rhithiodd lawer o gordwal, gan ei fritho hyd na welodd neb ledr tecach nag ef. Ac ar hynny cyweirio hwyl ar y llong a wnaeth, gan ddyfod i ddrws porth Caer Aranrod, ef a'r mab yn y llong, a dechreu llunio esgidiau a'u gwno. Ac yna canfyddwyd hwy o'r gaer, a phan wybu yntau eu darganfod o'r gaer, newid ei ffurf ef a'r mab a wnaeth, a doddi ffurf arall, fel nad adnabid hwy.

“Pa ddyinion sydd yn y llong?” ebe Aranrod.

“Cryddion,” ebe hwy.

“Ewch i edrych pa ryw ledr sydd ganddynt, a pha ryw waith a wnant.”

Yna yr aethpwyd atynt, a phan ddaethpwyd, yr oedd Gwydion yn britho cordwal, a hynny'n euraidd. Yna y daeth y cenhadau a mynegi iddi hi hynny.

“Ie,” ebe hi, “dygwch fesur fy nhroed, ac erchwch i'r crydd wneuthur esgid im.”

Yntau a luniodd yr esgidiau, ac nid wrth y mesur, namyn yn fwy.

“Rhy fawr yw y rhai hyn,” ebe hi.

“Ef a gaiff werth y rhai hyn; gwnaed hefyd rai a fo llai na hwynt.”

Fel y

cafodd

Llew Llaw

Gyffes enw.

Sef a wnaeth yntau gwneuthur rhai eraill yn llai lawer na'i throed, a'u hanfon iddi.

“Dywedwch wrtho nid da i mi y rhai hyn,” ebe hi. Ac fe a ddywedwyd hynny iddo.

“Ie,” ebe yntau, “ni luniaf fi esgidiau iddi oni welwyf ei throed.”

Hynny a ddywedwyd wrthi.

“Ie,” ebe hi, “mi a af hyd ato ef.”

Ac yna y daeth hi hyd y llong ; a phan ddaeth, yr oedd ef yn llunio a'r mab yn gwnio.

"Ie, arglwyddes," ebe ef, "dydd da it."

"Duw a roddo dda it," ebe hithau. "Rhyfedd yw gennyf na fedri gymedroli ar wneuthur esgidiau wrth fesur."

"Ni fedrais," ebe yntau, "mi a fedraf yn awr."

Ac ar hynny, dyma ddryw yn sefyll ar fwrdd y llong.

Sef a wnaeth y mab, bwrw ergyd, a'i daraw rhwng gewyn ei goes a'r asgwrn.

Sef a wnaeth hithau chwerthin,—

"Yn wir," ebe hi, "â llaw gyffes y tarawodd y llew ef."

"Ie," ebe yntau, "aniolch Duw iti, fe gafodd y mab enw, a da ddigon yw'r enw. Llew Llaw Gyffes yw bellach."

Ac yna diflannodd y gwaith, yn hesg ac yn wymon, ac ni chanlynodd efe y gwaith yn hwy na hynny. Ac o achos hynny y gelwid ef yn drydydd eurgrydd.

"Yn wir," ebe hi, "ni byddi di well o fod yn ddrwg wrthyf fi."

"Ni fum ddrwg eto wrthyf ti," ebe ef.

Ac yna y gollyngodd ef y mab i fod yn ei bryd ei hun.

"Ie," ebe hithau, "minnau a dyngaf dynged i'r mab hwn,—na chaffo arfau byth oni wisgwyf fi am dano."

"Yn wir," ebe ef, "er a ddêl o'th ddireidi, efe a gaiff arfau."

Yna y daethant hwy parth a Dinas Dinllef. Ac yno meithrinwyd Llew Llaw Gyffes oni allai farchogaeth pob march, ac onid oedd gyflawn o bryd, a thwf a maint. Ac yna adnabu Gwydion arno ei fod yn dihoeni o eisiau meirch ac arfau ; a galwodd ef ato.

*Fel y
cafodd*

*Llew Llaw
Gyffes arfau.*

"Ha was," ebe ef, "ni awn, fi a thi, i neges yfory ; a bydd lawenach nag ydwyf."

“ A hynny a wnaif innau,” ebe y gwas.

Ac yn ieuencid y dydd drannoeth cyfodi a wnaethant, a chymryd yr arfordir i fyny tua Bryn Arien ; ac yn y pen uchaf i Gefn Clydno ymgyweirio ar feirch a wnaethant, a dyfod parth a Chaer Aranrod. Ac yna newid eu pryd a wnaethant, a chyrcu y porth yn rhith dau was ieuanc, eithr fod yn bruddach bryd Gwydion nag un y gwas.

“ Y porthor,” ebe ef, “ dos i fewn, a dywed fod yma feirdd o Forgannwg.”

Y porthor a aeth.

“ Croesaw calon iddynt. Gollwng hwy i mewn,” ebe hi.

A dirfawr lawenydd a gawsant, y neuadd a gyweiriwyd, ac i fwyta yr aethant. Wedi darfod bwyta, ymddiddan a wnaeth hi a Gwydion am chwedlau ac ystorïau. A chwedleuwr da oedd Gwydion. Pan ddaeth yn amser ymadael â'r gyfeddach, ystafell a gyweiriwyd iddynt hwy, ac i gysgu yr aethant. Ar hir blygain Gwydion a gyfododd, ac a alwodd ato ei hud a'i allu. Erbyn pan oedd y dydd yn goleuo, yr oedd cyniwair ac utgyrn a llefain yn y wlad i gyd. Pan ydoedd y dydd yn dyfod, hwy a glywent daro drws yr ystafell, ac ar hynny Aranrod yn erchi iddynt agor. Cyfodi a wnaeth y gwas ieuanc, ac agor. Hithau a ddaeth i mewn, a morwyn gyda hi.

“ Ha, wŷr-da,” ebe hi, “ mewn lle drwg yr ydym.”

“ Ie,” ebe yntau, “ ni a glywn utgyrn a llefain. Beth a debygi di o hynny ? ”

“ Yn wir,” ebe hi, “ ni chawn weled lliw y weilgi gan bob llong ar dor ei gilydd. Ac y maent yn cyrcu y tir gyntaf y gallant. A pha beth a wnawn ni ? ” ebe hi.

“ Arglwyddes,” ebe Gwydion, “ nid oes un cyngor ond cau y gaer arnom, a’i chynnal goreu gallom.”

“ Ie,” ebe hithau, “ Duw a dalo i’ch, a chynheliwch chwithau. Ac yma y cewch ddigon o arfau.”

Ac ar hynny, yn ol yr arfau yr aeth hi. A dyma hi yn dyfod, a dwy forwyn gyda hi, ac arfau dau wŷr ganddynt.

“ Arglwyddes,” ebe ef, “ gwisg am y gŵr ieuanc hwn ; a minnau, fi a’r morynion, a wisgaf am danaf finnau. Mi a glywaf dwrf y gwŷr yn dyfod.”

“ Hynny a wnaeth yn llawen.”

A gwisgo a wnaeth hi amdano ef yn llawen ac yn gwbl.

“ A ddarfu i ti wisgo am y gŵr ieuanc hwn ? ”

“ Darfum.”

“ Fe ddarfum innau,” ebe ef. “ Diosgwn ein harfau weithion, ni raid i ni wrthynt.”

“ Och,” ebe hithau, “ paham ? Dyma y llynges o gylch y tŷ.”

“ Na, wraig, nid oes yma un llynges.”

“ Och,” ebe hithau, “ pa ryw gynnull a fu arni ? ”

“ Dygynnull,” ebe yntau, “ i dorri dy dyngedfen am dy fab, ac i geisio arfau iddo ; ac fe gafodd ef arfau heb ddiolch i ti.”

“ Yn wir, yn wir,” ebe hithau, “ gŵr drwg wyt ti, ac feallai i lawer mab golli ei fywyd am y dygynnull a beraist ti yn y c’antref hwn heddyw. A mi a dyngaf dynged i’r mab,” ebe hi, “ na chaffo wraig byth o’r genedl y sydd ar y ddaear hon yr awr hon.”

“ Ie,” ebe yntau, “ gwraig anfwyn fuost erioed, ac ni ddylai neb fod yn borth iti ; a gwraig a gaiff ef fel cynt.”

Hwythau a ddaethant at Fath fab Mathonwy, a chwyno yn drist rhag Aranrod a wnaethant, a mynegi fel y parasai yr arfau iddo.

“Ie,” ebe Math, “ceisiwn ninnau, fi a *Fel y* thi, â'n hud a lledrith, rithio gwraig iddo *cafodd* yntau o'r blodau. Ac yntau a maint gŵr *Llew Llaw* ynddo, ac yn harddaf gwas a welodd *Gyffes wraig*. dyn erioed.”

Ac yna y cymerasant hwy flodau y deri, blodau y banadl, a blodau yr erwain; ac o'r rhai hynny ffurfio, drwy swyn, y forwyn decaf a thlysaf a welodd dyn erioed, a'i bedyddio o'r bedydd a wnaent yr adeg honno, a doddi Blodeuwedd yn enw arni.

Wedi y briodas a'r wledd, “Nid hawdd,” ebe Gwydion, “i ŵr heb deyrnas ganddo ymdeithio.”

“Ie,” ebe Math, “mi a roddaf iddo yr un cantref goreu i was ieuanc ei gael.”

“Arglwydd,” ebe ef, “pa gantref yw hwnnw?”

“Cantref Dinodig,” ebe ef (a hwnnw a elwir yr awr hon Eifionnydd ac Ardudwy). A'r lle ar y cantref y cyfaneddwyd llys iddo yw y lle elwir Mur y Castell, yng ngwrthdir Ardudwy. Ac yno y cyfaneddodd efe ac y gwladychodd, a phawb a fu foddllawn iddo a'i arglwyddiaeth.

Ac yna ar ei dro cyrchu a wnaeth Llew Llaw Gyffes tua Chaer Dathyl, i ymweled â Math fab Mathonwy. Y dydd yr aeth ef tua Chaer Dathyl, cerdded o fewn y llys a wnaeth Blodeuwedd. A hi a glywai lef corn, ac wedi llef y corn dyma hydd blin yn myned heibio, a chŵn a helwyr yn ei ol; ac yn ol y cŵn a'r helwyr bagad o wŷr ar draed yn dyfod.

“Danfonweh was,” ebe hi, “i wybod pwy yw y nifer acw.”

Y gwas a aeth, gan ofyn pwy oeddynt.

“Gronw Pebyr yw hwn,” ebe hwy, “y gŵr y sydd arglwydd ar Benllyn.”

Hynny ddywedodd y gwas iddi hithau. Yntau a gerddodd yn ol yr hydd, ac ar afon Gynfael goddiwedddodd a lladdodd yr hydd. Ac yn blingo yr hydd a llithio ei gŵn y bu oni wasgodd y nos arno. A phan ydoedd y dydd yn adfeilio a'r nos yn neshau, efe a ddaeth at borth y llys.

"Yn wir," ebe Blodeuwedd, "ni a gawn ein goganu gan yr unben, os gadawn iddo fyned i le arall ar awr fel hon, onis gwahodddwn ef."

"Yn wir, arglwyddes," ebe hwy, "iawnaf yw ei wahodd."

Yna yr aeth cenhadau i'w gyfarfod i'w wahodd. Ac yna cymerodd ef y gwahoddiad yn llawen, ac a aeth i'r llys, ac aeth hithau i'w gyfarfod i'w

Fel y daeth groesawu, ac i gyfarch gwell iddo.

Gronw "Arglwyddes," ebe ef, "Duw a dalo
Bebyr i hela. iti dy garedigrwydd."

Wedi iddo ddiosg ei arfwisg, myned i eistedd a wnaethant. Sef a wnaeth Blodeuwedd edrych arno, ac o'r awr yr edrychodd nid oedd gyfair arni hi na bai llawn o gariad ato ef. Ac yntau a fyfyr-iodd arni hithau, a'r un meddwl a ddaeth iddo ef ac a ddaeth iddi hithau. Ni allai ymgelu ei fod yn ei charu, a'i fynegi iddi a wnaeth. Hithau a gymerth ddirfawr lawenydd, ac o achos y serch a'r cariad a roddasai pob un ohonynt ar ei gilydd y bu eu hymddiddan y nos honno. A thrannoeth son a wnaeth am fyned ymaith.

"Yn wir," ebe hi, "nid ei oddi wrthyf fi heno."

A'r noson honno y bu ymgyngor ganddynt pa ffurf y gallent fod gyda'i gilydd.

"Nid oes gyngor," ebe ef, "ond un,—ceisio cael gwybod ganddo ymha ffurf y dël ei angau, a hynny yn rhith ymgeledd am dano."

Trannoeth, son am fyned ymaith wnaeth.

“ Yn wir, ni chynghoraf it heddyw fyned oddi wrthyf fi.”

“ Yn wir, gan na chynghori dithau, nid af finnau,” ebe ef. “ Mi a ddywedaf hefyd fod yn berigl i'r unben biau y llys ddyfod adref.”

“ Ie,” ebe hi, “ yfory mi a'th ganiataf di i fyned ymaith.”

Trannoeth, son am fyned ymaith a wnaeth, ac ni luddiodd hithau ef.

“ Ie,” ebe yntau, “ coffa a ddywedais wrthyf, ac ymddiddan yn ddwys âg ef, a hynny yn rhith ysmaldod cariad âg ef, a dysg oddiwrtho pa ffordd y gallai ddyfod ei angau.”

Yntau a ddaeth adref y nos honno. Treulio y dydd a wnaethant trwy ymddiddan a cherdd a chyfeddach. Ac efe a ddywedodd barabl wrthi, ac er hynny parabl nis cafodd ef ganddi.

“ Pa beth a ddarfu iti ? ” ebe ef. “ A wyt iach di ? ”

“ Meddwl yr wyf,” ebe hi, “ yr hyn ni feddyliet di am danaf fi ; sef yw hynny,” ebe hi, “ gofalu am dy angau di, os eli yn gynt na myfi.”

“ Ie,” ebe ef, “ Duw a dalo it dy ym- *Fel y*
geledd. Oni ladd Duw fi, nid hawdd fy *cynlluniodd*
lladd i.” *Blodeuwedd.*

“ A wnei dithau, er Duw ac erof finnau, fynegi i mi pa ffurf y galler dy ladd di ? Canys gwell yw fy nghof i na'th un di i'w ochelyd.”

“ Dywedaf yn llawen,” ebe ef. “ Nid hawdd fy lladd i ond âg ergyd. A rhaid bod blwyddyn yn gwneuthur y bar y'm tarewid âg ef, ac heb wneuthur dim ohono namyn pan fyddid ar yr aberth ddydd Sul.”

“ Ai diogel hynny ? ” ebe hi.

“ Diogel yn wir,” ebe ef. “ Ni ellir fy lladd i mewn tŷ,” ebe ef, “ ni ellir allan, ni ellir fy lladd i ar farch, ni ellir ar fy nhroed.”

“Ie,” ebe hithau, “pa ddelw y gellir dy ladd di?”

“Gwneuthur enaint im ar lan afon; a gwneuthur cromglwyd uwchben y gerwyn, a’i thoi yn dda ac yn ddiddos wedi hynny. A dwyn bwch,” ebe ef, “a’i ddodi gerllaw y gerwyn, a doddi o honof finnau y naill droed ar gefn y bwch, a’r llall ar ymyl y gerwyn. Pwy bynnag a’m tarawai i felly a barai fy angau.”

“Ie,” ebe hithau, “diolchaf i Dduw hynny. Gellir dianc rhag hynny yn hawdd.”

Nid cynt nag y cafodd hi yr ymadrodd nag y danfonodd at Gronw Pebyr. Gronw a lafuriodd waith y waew, a’r un dydd ymhen y flwyddyn y bu barod. A’r dydd hwnnw y parodd ef i Flodeuwedd wybod hynny.

“Arglwydd,” ebe hi, “meddwl yr wyf pa ddelw y gall fod yn wir a ddywedaist di gynt wrthyf fi. Ac a ddanghosi di i mi pa ffurf y safit ti ar ymyl y gerwyn a’r bwch, os paraf fi yr enaint?”

“Danghosaf,” ebe ef.

Hithau a anfonodd at Ronw, ac a archodd iddo fod yng nghysgod y bryn a elwir yn awr Bryn Cyfergyr, yng nglan afon Gynfael.

A hi a barodd gynnull a ellid gael o eifr yn y cantref, a’u dwyn i’r parth draw i’r afon, gyfer-wyneb â Bryn Cyfergyr.

A thrannoeth hi a ddywedodd,—

“Arglwydd,” ebe hi, “mi a berais gyweirio y glwyd a’r enaint,—y maent yn barod.”

“Ie,” ebe ef, “awn i’w hedrych yn llawen.”

Hwy a ddaethant drannoeth i edrych yr enaint.

“Ti a ei i’r enaint, arglwydd?” ebe hi.

“Af yn llawen,” ebe ef. Ac efe a aeth i’r enaint, ac ymeneinio a wnaeth.

“Arglwydd,” ebe hi, “dyma’r anifeiliaid a ddywedaist di fod bwch ynddynt.”

“Ie,” ebe ef, “par ddal un ohonynt, a phar ei ddwyn yma.”

A'r bwch a ddygwyd. Yna y cyfododd *Fel y*
 ef o'r enaint, a gwisgodd ei lodrau am dano; *tarawyd*
 a doddi ei naill droed ar ymyl y gerwyn, *Llew Llaw*
 a'r llall ar gefn y bwch. Yntau Gronw a *Gyffes.*
 gyfododd i fyny o'r bryn a elwir Bryn
 Cyfergyr. Ac ar ben y naill lin y cyfododd, ac â'r
 waew wenwynig y bwriodd ac y tarawodd Llew Llaw
 Gyffes yn ei ystlys oni neidiodd y paladyr ohoni, a glynu
 o'r pen ynddo. A doddi gwaedd anhygar a wnaeth
 Llew, gan ddechreu ehedeg yn rhith eryr, ac ni welwyd
 ef o hynny allan. Cyn gyflymed yr aeth ef ymaith y
 cyrchasant hwythau y llys. A'r noson honno priodi a
 wnaethant. A thrannoeth cyfodi a wnaeth Gronw, a
 goresgyn Ardudwy. Wedi goresgyn y wlad, ei gwlad-
 ychu a wnaeth hyd onid oedd yn eiddo iddo Ardudwy
 a Phenllyn.

Yna y chwedl a aeth at Math fab Mathonwy. Trym-
 fryd a phryder a gymerodd Math, a Gwydion lawer
 mwy nag yntau.

“Arglwydd,” ebe Gwydion, “ni orffwysaf fyth oni
 chaffwyf hanes am fy nai.”

“Ie,” ebe Math, “Duw a fo nerth it.”

Ac yna cychwyn a wnaeth ef, a dechreu rhodio
 rhagddo. A rhodio Gwynedd a wnaeth, a Phowys i'w
 therfyn. Wedi darfod iddo rodio felly,
 efe a ddaeth hyd yn Arfon, ac a ddaeth i *Fel y*
 dŷ mab aillt ym maenor Pennardd. *chwiliodd*
 Disgyn wrth y tŷ a wnaeth, a thrigo yno *Gwydion fab*
 y nos honno. Gŵr y tŷ a'i dylwyth a *Don am ei*
 ddaeth i mewn, ac yn ddiweddaf y daeth *nai.*
 gwas y moch. A gŵr y tŷ a ddywedodd
 wrth was y moch,—

“Ha was,” ebe ef, “a ddaeth dy hwch di heno i mewn?”

“Daeth,” ebe yntau, “yr awr hon y daeth at y moch.”

“Pa ryw gerdded,” ebe Gwydion, “y sydd ar yr hwch honno?”

“Pan agorir y creu, beunydd yr a allan. Ni cheir craff arni, ac ni wybyddir pa ffordd yr a mwy na phe'r elai i'r ddaear.”

“A wnei di,” ebe Gwydion, “erof fi, nad agorych y creu oni fyddwyf fi yn y naill ben i'r creu gyda thi?”

“Gwnaf yn llawen,” ebe ef.

I gysgu yr aethant y nos honno, a phan welodd gwas y moch liw dydd, efe a ddefrôdd Gwydion. A chyfodi a wnaeth Gwydion a gwisgo am dano, a dyfod gyda gwas y moch a sefyll wrth y creu, a chydag iddo ei agor, dyma hithau yn bwrw naid allan, a cherdded yn gyflym a wnaeth. A Gwydion a'i canlynodd. A chymryd gwrthwyneb afon a wnaeth, a chyrchu nant a elwir yn awr Nant y Llew. Ac yno gwastadhau a wnaeth a phori. Yntau Gwydion a ddaeth dan y pren, ac a edrychodd pa beth yr oedd yr hwch yn ei bori, ac ef a welai yr hwch yn pori cîg pwdr a chynron. Sef a wnaeth yntau edrych i frig y pren; a phan edrychodd, ef a welai eryr ym mrig y pren; a phan yr ymysgydwai yr eryr y syrthiai y pryfed a'r cîg pwdr ohono,—a'r hwch yn ysu y rhai hynny. Sef a wnaeth yntau meddwl mai Llew oedd yr eryr, a chanu englyn,—

“Dar a dyf y rwng deu lenn.

Gorduwrych awyr a glen.

Ony dywetaf i eu ovlodeu.—

Llew pan yw hynn.”*

* “Derwen a dÿf rhwng dau lyn,
Gorddu-wrych yw awyr a glyn;
Oni ddywedaf am ei blodau,—
Llew yw y rhai hyn?”

Sef a wnaeth yntau, yr eryr, ymollwng onid oedd ynghanol y pren. Sef a wnaeth yntau, Gwydion, canu englyn arall,—

“Dar a dyf yn ardd-vaes,
Nys gwlych glaw, nys mwytawdd.
Naw ugain angerdd a borthes.
Yn y blaen Llew Llaw Gyffes.”*

Yna yr ymollyngodd yntau onid oedd ar gainc isaf y pren. Canu englyn a wnaeth yntau iddo,—

“Dar a dyf dan anwaeret.
Mirein medur ym ywet.
Ony dywedaf i ef.
Dyddaw Llew ym harffet.”†

A disgynnodd yntau ar lin Gwydion, ac yna y tarawodd Gwydion yntau â hud-lath onid oedd yn ei rith ei hun. Ni welsai neb olwg druanach yn wir nag oedd arno ef,—nid oedd ddim ond croen ac asgwrn. Yna cyrchu Caer Dathyl a wnaeth ef, ac yno y dygwyd a geffid o feddygon da yng Ngwynedd ato, a chyn cyfyl y flwyddyn yr oedd ef yn holliach.

“Arglwydd,” ebe Llew Llaw Gyffes wrth Fath fab Mathonwy, “mad oedd i mi gael iawn gan y gŵr y cefais ofid ganddo.”

“Yn ddiau,” ebe math, “ni all ef ymgynnal a’th iawn di ganddo.”

* “Derwen a dyf yn ardd-faes,
Nis gwlych glaw, nis mwydodd ;
Naw ugain ystorom a safodd,—
Yn ei brig Llew Llaw Gyffes.”

† “Derwen a dyf tan oriwaered,
Mirain a medrus im ei wedd ;
Oni ddywedaf fi wrtho,—
Y daw Llew im harffed ? ”

“ Ie,” ebe yntau, “ goreu gennyf fi po gyntaf y caffwyf iawn ganddo.”

Yna dygyfor Gwynedd a wnaethant, a chyrchu Ardudwy. Gwydion a gerddodd yn ei flaen, a chyrchu Mur Castell a wnaeth. Sef a wnaeth *Fel y* Blodeuwedd clywed eu bod yn dyfod ; *cosbwyd* cymryd ei morynion gyda hi a chyrchu *Blodeuwedd.* i'r mynydd, a thrwy afon Cynfael, a chyrchu llys a oedd ar y mynydd. Ac ni allent gerdded rhag ofn namyn drach eu cefn ; a cherddasant heb wybod oni syrthiasant yn y llyn, a boddasant oll eithr Blodeuwedd ei hunan. Ac yna goddiweddodd Gwydion hithau, ac a ddywedodd wrthi,—

“ Ni laddaf di ; mi a wnaef sydd waeth â thi ; sef yw hynny, dy ollwng yn rhith aderyn. Ac o achos y cywilydd a wnaethost di i Lew Llaw Gyffes, na feiddia dithau ddangos dy wyneb liw dydd byth. A hynny rhag ofn yr holl adar. A bydd yn anian iddynt dy faeddu a'th amharchu y lle y'th gaffont. Ni cholli dy enw, namyn dy alw fyth,—Blodeuwedd.”

Sef yw Blodeuwedd, dylluan yn iaith yr awr hon ; ac o achos hynny y mae digasweh yr adar at y dylluan. A gelwir eto y ddylluan yn Flodeuwedd.

Yntau Gronw Pebyr a gyrchodd Benllyn, ac oddiyno ymgenghadu a wnaeth. Sef cenadwri a anfonodd,—gofyn a wnaeth i Lew Llaw Gyffes a fynnai ai tir ai daear ai aur ai arian am y sarhad.

“ Na chymeraf, i Dduw y dygaf fy nghyffes,” ebe ef, “ a dyma y peth lleiaf a gymeraf ganddo,—myned ohono ef i'r lle yr oeddwn i pan y'm tarawyd â'r bar, a minnau i'r lle yr oedd yntau, a gadael i minnau ei daro ef â'r bar. A hynny yw y lleiaf peth a gymeraf ganddo.”

Hynny a fynegwyd i Ronw Pebyr.

“Ie,” ebe yntau, “teg yw i mi wneuthur hynny. Fy ngwŷr-da cywir a’ m teulu a’ m brodyr maeth, a oes ohonoch chwi a gymero yr ergyd dros of fi ?”

“Nag oes, yn ddiau,” ebe hwythau.

Ac o achos gomedd ohonynt hwy ddiodef un ergyd dros eu harglwydd, y gelwir hwythau er hynny hyd heddyw, “Trydydd Ani wair Deulu.”

“Ie,” ebe ef, “mi a’ i cymeraf.”

Ac yna y daethant ill dau hyd ar lan yr afon Gynfael, ac yna y safodd Gronw yn y lle yr oedd Llew Llaw Gyffes pan y tarawyd ef, a Llew yn y lle yr oedd yntau. Ac yna y dywedodd Gronw Pebyr wrth Llew,—

*Fel y cosb-
wyd Gronw
Pebyr.*

“Arglwydd,” ebe ef, “gan mai o ddrwg ystryw gwraig y gwnaethum i iti a wnaethum, minnau a archaf i ti, er Duw, llech a welaf ar lan yr afon, adael im ddodi honno rhyngof a’ r ddyrnod ?”

“Yn ddiau,” ebe Llew, “ni’th omeddaf o hynny.”

“Ie,” ebe ef, “Duw a dalo it.”

Ac yna y cymerth Gronw y llech, ac a’ i dodes rhyngddo â’ r ergyd. Ac yna y tarawodd Llew ef â’ r bar, gan wanu y llech drwyddi, ac yntau drwyddo oni thorrodd ei gefn. Ac yna y lladdwyd Gronw Pebyr.

Ac yno y mae y llech ar lan afon Gynfael yn Ardudwy a’ r twll drwyddi, ac o achos hynny y gelwir hi eto Llech Gronw.

Yntau, Llew Llaw Gyffes, eilwaith a oresgynnodd y wlad, ac a’ i gwladychodd yn llwyddiannus. A dywed y chwedl iddo ef fod wedi hynny yn arglwydd ar Wynedd.

Ac felly y terfyna y gainc hon o’ r Mabinogi.

WRECSAM :

HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR.

Weithiau Syr Owen Edwards, M.A.

Chwarter Rhwym, Ymyl Ucha Aur, 6/6 yr un. Llian, 2/6 yr un.

CLYCH ATGOF: Llyfr hudol ddiddorol o Atgofion, gyda Darlun byw o'r awdur, a chwech o ddarluniau eraill.

"Y mae 'Clych Atgof' yn llawn o ddisgrifiadau byw o hen gymeriadau diddan, ac o ddarluniau meistrlogar o'r wlad a'i phobl. Gwaith meistr yw y cwbl. Dylai'r llyfr hwn, a holl lyfrau'r gyfres, fod yn llaw pob Cymro a Chymraes."—*Y Clorianydd*.

YN Y WLAD. Llyfr Newydd. Disgrifiadau swynol, yn arddull fyw a chain Syr Owen, o'i ymweliadau a lleoedd gwledig mewn gwahanol rannau o Gymru. Saith o ddarluniau tlws.

"Braint ddiaill yw cael ymweld a manau prydfertaf Cymru ynghwmni O.M. Y mae ar ei oreu yn 'Y Wlad.'"—*Yr Herald Cymraeg*.

TRO YN LLYDAW. Darluniau geiriol telaid o Llydaw, ei Phobl a'i harferion.

"Da gennym am 'Cyfres Gwerin Cymru,' sef yr ad-argraffiadau o weithiau cymwynaswr mawr ein cenedl, Syr Owen Edwards. Derbyniasom Clych Atgof: Yn y Wlad: a Tro yn Llydaw. A oes i'w cael lyfrau mwy swynol eu harddull, byw eu darluniau, naturiol eu cyffyrddiad na rhai'n? Os oes, nis gwelsom."—*Yr Athro D. Miall Edwards, M.A.*

ER MWYN CYMRU. Un ar hugain o ysgrifau ar wahanol destunau.

"This book has brought home to us more than a thousand orations or memorial articles could ever do, what Wales lost in the death of Sir Owen. Here again is the mellow wisdom, the kindness and generosity, the humour, the fancy, the incomparable style, and, above all, the wonderful humility which characterized everything this wonderful man wrote."

—*The Welsh Outlook.*

TRO YN YR EIDAL. Ni ellir gwell disgrifiad o'r llyfr godidog hwn, nag a geir yng ngeiriau un o'i adolygwyr,—"*Y mae'n liberal education ar yr Eidal a'i hanes cyffrous.*"

"Y mae'n amheus gennym a ysgrifenydd hanes unrhyw daith erioed gyda mwy o swyn a chyfaredd, manylder a bywiogrwydd, nag a geir yn y llyfr hwn. Braidd na ellir galw y llyfr yn llawlyfr ar Hanes yr Eidal. Llyfr ardderchog ydyw.—*Llanelly Mercury.*

LLYNNOEDD LLONYDD. Saith o ysgrifau ysgolheigaidd, yn iaith fyw a phersain Syr Owen ar Owen Glyndwr: Thomas Cromwell: Llais na ddistewir (John Milton): John Calfin: Addoli Mair: Llenyddiaeth y Saeson: Gem Llenyddiaeth Lloegr.

"Y mae yn y llyfr hwn wybodaeth ac ehangder meddwl diwylliedig ac ysgolheigddod anarferol. Erthyglau ysgolhaig ydyw'r gyfrol hon, ar faterion hanes a llên, ac yr wyf yn berffaith sicr fy mod yn iawn wrth ddywedyd bod y llyfr yn anhepgor i bob Cymro."—*Yr Athro W. J. Gruffydd, M.A.*

O'R BALA I GENEVA. Yn y llyfr tra diddorol hwn rhoddir ambell gipolwg ar y dyffrynnoedd a'r dinasoedd sydd rhwng y Bala a Geneva—rhwng hen gartref meddwl Cymru, a hen gartref meddwl Ewrop. Y mae'n llawn o swyn a chyfaredd "*O.M.*"

"Ceir yma ddisgrifiadau na cheir eu godidocach, os eu hafal, yn ein hiaith. Nid anghofir byth y golygfeydd a ddisgrifir yma, na'r teimladau llawn a dwys a fynegir."—*Yr Herald Cymraeg.*

Eraill i ddilyn.

Llyfrau i gyfarfod a phob ehwaeth.

“ Can cyfaill
sydd i'r dyn
a chan llyfr.”

- MABINOGIION**: Yn cynnwys Pwyll, Pendefig Dyfed; Branwen Ferch Llŷr; Manawyddan Fab Llŷr; a Math Fab Matholwch. Golygwyd gan J. M. EDWARDS, M.A. Gyda Phedwar o Ddarluniau. Llian, 2/-.
- OWEN GLYNDWR**: Gan L. J. ROBERTS, M.A. Darluniau. Llian, 1/6.
- PERLAU AWEN ISLWYN**: Detholwyd gan J. M. EDWARDS, M.A. Llian, 2/3.
- O OES I OES**: Enghreifftiau o ryddiaith Gymraeg o'r dechreu hyd heddyw. Gan yr Athro T. GWYNN JONES, M.A. Gyda Darluniau. Llian, 2/3.
- LLYFR DARLLEN AC YSGRIFENNU**: Dyfyniadau o'r Clasuron Cymreig. Gan JOHN LLOYD, M.A. Darluniau. Llian, 2/3.
- YR YSGOL GYMRAEG**: Llyfr darllen diddorol a hawdd ei ddeall. Gan O. JONES OWEN. Gyda Gwersi a Darluniau. Llian, 2/3.
- DYDDIAU YSGOL**: Detholion o waith Daniel Owen. Golygwyd gan J. M. EDWARDS, M.A. Llian, 2/3.
- ORIAU DIFYR**: Ail ddedholiad o Waith Daniel Owen. Golygwyd gan J. M. EDWARDS, M.A. Llian, 2/3.
- IFOR OWAIN**: Notel hanesyddol dda, am Gymru yn amser Cromwell. Gan ELWYN. Llian, 2/6. Amlen, 1/6.
- Y GOLOMEN DEG**: Rhامant swynol yn darlunio bywyd Cymru yn amser Owen Glyndwr. Gan y Parch. G. BEDFORD ROBERTS. Llian, 2/-.
- Y PENTRE GWYN**: Hanes bywyd bob dydd plant pentref bychan. Gan ANTHROPOS. Darluniau. Llian, 2/-.
- TEULU BACH NANTOER**: Ystori swynol gan MOELONA. Gem o stori i blant yw hon. Darluniau. Llian, 1/3.
- YN OES YR ARTH A'R BLAIDD**: Ystori hanes dlos i blant. Gan yr Athro T. GWYNN JONES, M.A. Darluniau. Llian, 1/6.
- DAFYDD DAFIS**: Hunangofiant Ymgeisydd Seneddol. Gan BERIAH GWYNFFE EVANS. Llu o Ddarluniau a Gwawd-ddarluniau. Llian, 4/6.
- JOHN ELIAS O FON**: Gan y Parch. EDWARD THOMAS. Darluniau. Llian, 1/9.
- MAMAU METHODISTAIDD**: Gan y Parch. EDWARD THOMAS. Darluniau. Llian, 1/9.
- YR HANESYDD METHODISTAIDD**: Gan y Parch. EDWARD THOMAS. Darluniau. Llian, 1/9.
- CAMP YR ADRODDWR**: Gan ELFED. 136 t.d. Llian, 1/9.
- CYFAILL YR ADRODDWR**: Gan CARNEDDOG. 136 t.d. Llian, 1/9.
- BOREUAU GYDA'R IESU**: Myfyrdodau a Gweddïau i ddechreu'r dydd. Gan y Parch. H. ELVET LEWIS, M.A. Llian, 1/6. Amlen, 1/-.
- YSGOL JACOB**: Breuddwyd ac Ymchwil am Dduw. Gan y Parch. JOHN HUGHES, M.A. Llian, 2/-.
- GWANWYN BYWYD A'I DDEFFROAD**: Gan y Parch. JOHN HUGHES, M.A. Amlen, 8c.
- YSGRYPHYRAU YR HEN DESTAMENT**: Gan yr Athro T WITTON DAVIES, Ph.D. Amlen, 8c.

Ar werth gan Llyfrwerthwyr ymhobman, neu danfoner at
HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWR, WRECSAM.

Mabinogion

PB

Mabinogion

2273 .

.R4

E31

PONTIFICAL INSTITUTE
OF MEDIAEVAL STUDIES
59 QUEEN'S PARK
TORONTO 5, CANADA

